# Cynnwys


Rhaglen 2
4(a) - Cofnodion cyfarfod 7 Ebrill, 2014 5
4(b) - Cofnodion cyfarfod 12 Mehefin, 2014 12
5 - Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau - 2013-14 14
Atodiad 1 15
6 - Adolygu Gweithdrefn Gwrandawiadau y Pwyllgor Safonau 25
Atodiad 1 26
7(a) - Cofrestr Achosion yr Ombwdsmon - Rhifyn 1 35
7(b) - Cofrestr Achosion yr Ombwdsmon - Rhifyn 2 51
8 - Honiadau yn erbyn Aelodau 62
9 - Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru - cofnodion 29 Ebrill, 2014 65

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 30 MEHEFIN, 2014**

**11.00am, MONDAY, 30 JUNE, 2014**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 23/06/14*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen
[sedd wag / vacant seat]

**Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) / Independent Members (with a vote) (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) / Community Committee Member (with a vote) (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

(a) 7 Ebrill, 2014 (ynghlwm);
(b) 12 Mehefin, 2014 (ynghlwm).

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2013/14

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 6. ADOLYGU GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU Y PWYLLGOR SAFONAU

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (ynghlwm).

## 7. COFRESTR ACHOSION YR OMBWDSMON

Cyflwyno, er gwybodaeth, y ddau rifyn cyntaf o Gofrestr Achosion yr Ombwdsman (ynghlwm).

## 8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 9. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwyno cofnodion Fforwm 29 Ebrill, 2014 (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU, 7.04.14

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones a Mr Sam W.Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:** Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) a'r Cynghorydd Selwyn Griffiths (aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Charles Jones; Dr Einir Young (Aelod Annibynnol) a'r Cynghorydd Ann Lloyd Jones (Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2014 fel rhai cywir.

**3. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Gan nad oedd yn bosib' i Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Ann Lloyd Jones, fod yn bresennol, 'roedd y Cynghorydd Selwyn Griffiths wedi'i enwebu i ddod i'r cyfarfod gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Lesley Day.

Croesawyd y Cynghorwyr Lesley Day a Selwyn Griffiths i'r cyfarfod.

Cynhaliwyd trosolwg o swyddogaethau'r ddau bwyllgor gan ystyried sut y gallent gynorthwyo'r naill a'r llall, materion penodol yn ymwneud â safonau a godir yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr.

Eglurodd y cadeiryddion rôl a swyddogaethau'r ddau bwyllgor.

Ceisiwyd barn cynrychiolwyr y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfres o gwestiynau, megis beth all y Pwyllgor Safonau ei wneud i hyrwyddo safonau uwch a beth yw'r prif faterion ymddygiad y dylai'r Pwyllgor Safonau eu trafod?

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd yr awgrymiadau a ganlyn:-

(1) Bod adroddiad ar we-ddarlledu yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Safonau Mehefin / Medi er mwyn monitro'r effaith ar ymddygiad aelodau. Dylai'r aelodau gael cyfle hefyd i arsylwi ar bwyllgor unwaith y bydd y system wedi mynd yn fyw.
(2) Bod y Swyddog Monitro anfon llythyr at yr Ombwdsmon newydd ar yr adeg briodol yn ei longyfarch ar ei swydd ac yn tynnu sylw at bryder yr aelodau ynglŷn â'r amser mae'n gymryd i ymchwilio i gwynion. Dylid hefyd godi'r mater hwn ymhellach yn y Fforwm Cadeiryddion.
(3) Bod cynrychiolwyr y ddau bwyllgor o'r farn y dylid annog aelodau sy'n dymuno cwyno yn erbyn aelod arall i ddefnyddio Safon Gwynedd, yn hytrach na chyflwyno cŵyn i'r Ombwdsmon.
(4) Bod yr aelodau angen rhagor o hyfforddiant ar y Protocol Rhoddion a Lletygarwch, Datgan Buddiant, y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol a'r Cod Ymddygiad.
(5) Bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gweithgarwch y Pwyllgor Safonau, megis drwy gynnwys crynodeb o adroddiad blynyddol y pwyllgor yn Newyddion Gwynedd.
(6) Y dylid rhoi monitro presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau / hyfforddiant ar raglen waith y Pwyllgor Safonau a bod y ddau bwyllgor yn gweithio ar y cyd ar hyn.
(7) Dylid cynnal cyfarfod tebyg eto ymhen blwyddyn.

Diolchwyd i gynrychiolwyr y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am eu cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth.

## 4. ADOLYGIAD O'R DREFN AR GYFER CEISIADAU AM ODDEFEBAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried:-

(a) a ddylid caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno eu ceisiadau;
(b) ffurflen gais ddiwygiedig am oddefeb;
(c) unrhyw newidiadau eraill y dylid eu gwneud i'r drefn;
(ch) a yw'r canllaw ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion yn parhau'n addas.

Gan gyfeirio at y cwestiwn o ganiatáu i ymgeiswyr am oddefebau ymddangos gerbron y pwyllgor i gyflwyno ceisiadau yn bersonol, nodwyd:-

(1) y gallai hynny achosi oediad pe na bai dyddiad y Pwyllgor Safonau yn gyfleus i'r ymgeisydd.
(2) bod y ffurflen gais ddiwygiedig yn fanwl ac yn rhoi cyfle i'r aelodau gyflwyno eu hachos yn llawn.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Swyddog Monitro na osodwyd cynsail y naill ffordd na'r llall yn flaenorol.

Awgrymodd y Cadeirydd ychwanegu 'ewythr / modryb' at y canllaw yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, ond 'roedd eraill o'r farn bod hyn yn mynd yn rhy eang ac y byddai'n anodd ei ddiffinio. Cytunwyd y byddai'n briodol ychwanegu 'partner' at y canllaw.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Ymlynu at y drefn bresennol o beidio caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno eu ceisiadau.**
**(b) Derbyn y ffurflen gais ddiwygiedig am oddefeb, gyda'r newidiadau / cywiriadau a ganlyn:-**

- **Cryfhau'r datganiad ar y cychwyn i ddweud na chaiff y ffurflen ystyriaeth os nad yw wedi ei llenwi'n iawn.**

- **Cywiro'r fersiwn Saesneg o'r ail gwestiwn yn rhan 2 o'r ffurflen i ddarllen "*How does your interest in the <u>item</u> arise*?"**
- **Bod yr ail gwestiwn yn rhan 3 o'r ffurflen yn cael ei rannu'n ddau fel a ganlyn:-**
  ***"(a) Ydych chi'n gofyn am ollyngiad ar gyfer cyfarfod penodol? (os felly nodwch pa un), neu:***
  ***(b) Ydych chi'n gofyn am ollyngiad cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?"***
- **Rhoi gair yn lle'r gair '*disability'* yn y fersiwn Saesneg o ran 2(i) o'r nodiadau ar ddiwedd y ffurflen.**

**(c) Diwygio'r canllaw ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion i ddarllen:-**

***"Y byddai tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, <u>partner</u>, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau."***

## 5. HUNAN ASESIAD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried drafft o ddogfen hunan asesu a chynnal hunan asesiad o'i waith a'i effeithiolrwydd yn erbyn y gofynion statudol a chyfansoddiadol.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y swyddogaethau a restrwyd yng ngholofn gyntaf y ddogfen a nodi pa asesiad a gredai oedd yn berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:-

<u>Categori 1</u> – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn.
<u>Categori 2</u> – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol, ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn.
<u>Categori 3</u> – Dim tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion.

Gwahoddwyd y pwyllgor hefyd i ychwanegu at y colofnau 'Tystiolaeth' a 'Chamau Pellach'.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i waith (ychwanegiadau i'r ddogfen mewn llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu):-**

| **<u>SWYDDOGAETH</u>** | **<u>ASESIAD (1/2/3)</u>** | **<u>TYSTIOLAETH</u>** | **<u>CAMAU PELLACH</u>** |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau** | ***<u>2</u>*** | **Cyhoeddir adroddiad blynyddol yn manylu ar waith y Pwyllgor Safonau** | **1. Aelodau'r pwyllgor i fynychu pwyllgorau'r Cyngor fel sylwebyddion ar raglen dreigl reolaidd *<u>a bod y Swyddog Monitro yn penderfynu pa bwyllgorau fyddai'n fuddiol i'r aelodau eu mynychu ac yn llunio rota ar eu cyfer.</u>*** |
| | | **Cyhoeddir rhaglen waith flynyddol i'r Pwyllgor** | |
| | | **Cynhaliwyd cyfarfod gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol** | **2. Cynnal cyfarfodydd achlysurol gyda budd-** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **ddeiliaid sydd â diddordeb mewn safonau ymddygiad e.e. Cadeiryddion pwyllgorau perthnasol, prif swyddogion y Cyngor** |
| | | **Mae'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill** | |
| | | **Rhai o'r aelodau cyfetholedig wedi mynychu pwyllgorau / cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn fel sylwebyddion** | |
| **Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Côd Ymddygiad** | ***<u>1-2</u>*** | **Mabwysiadwyd trefn ddatrys leol ar gyfer cwynion nad ydynt yn destun ymchwiliad Ombwdsmon** | **Ystyried llunio canllawiau syml i aelodau ar sut i ymdrin hefo cyswllt hefo'r Cyngor yn eu rôl fel unigolion preifat (e.e. ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio/perchennog cwmni sy'n cytundebu hefo'r Cyngor)** |
| | | **Mabwysiadwyd Protocol Cyfryngau Cymdeithasol** | |
| | | **Adolygwyd y Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog** | |
| **Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad** | ***<u>1</u>*** | **Rhoddwyd cyngor ar fabwysiadu'r Cod Ymddygiad yn 2008** | |
| | | **Gwnaed sylwadau i'r Gweinidog perthnasol ar adolygiad o'r Côd Ymddygiad** | |
| **Monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad** | ***<u>2</u>*** | **Derbynnir adroddiadau rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau** | **Edrych ar Lyfr Achosion yr Ombwdsmon i weld a oes gwersi i'w dysgu o gynghorau eraill** |
| | | **Derbynnir adroddiadau blynyddol yr Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru** | |
| | | **Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a'r datganiadau a wneir** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch | |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Côd Ymddygiad | *1* | Derbynnir adroddiadau blynyddol ar yr hyfforddiant a drefnwyd yn ystod y flwyddyn<br><br>Cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau'r cyngor sir ym Mai 2012 a Gorffennaf 2013<br><br>Mynychodd 5 aelod o'r Pwyllgor y Gynhadledd Safonau a gynhaliwyd yn Ebrill 2013<br><br>Cyflwynir sesiynau hyfforddi achlysurol i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod ffurfiol (roedd y ddiweddaraf yn Ionawr 2014) | 1. Edrych ar ffyrdd o asesu ansawdd ac effaith yr hyfforddiant trwy ddadansoddi ffurflenni adborth<br><br>2. Parhau i gynnig sesiynau diweddaru i aelodau yn flynyddol<br><br>3. Parhau i gynnig sesiynau hyfforddi yn achlysurol i aelodau'r Pwyllgor ar gychwyn eu cyfarfodydd, yn unol â rhaglen hyfforddi<br><br>*4. Monitro presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau / hyfforddiant* |
| Rhoi goddefebau i aelodau | *1* | Mabwysiadwyd "polisi" ar ganiatáu goddefebau<br><br>Mabwysiadwyd trefn ar gyfer ystyried ceisiadau am oddefebau | Adolygu'r drefn ar gyfer goddefebau |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | *1* | Mabwysiadwyd trefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau<br><br>Cynhaliwyd un gwrandawiad ers 2012 | Adolygu'r drefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i | *Amherthnasol* | Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | | | |
| **Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | ***3*** | **Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i glercod cynghorau cymuned yn yr hydref 2013** | **Cyfarfod cynrychiolwyr o'r cynghorau cymuned i drafod sut y gellir cynnal safonau uchel o ymddygiad *a thrafod y posibilrwydd o gynnal un cyfarfod yn yr Hydref mewn lleoliad canolog gyda'r cynghorau cymuned*** |
| | | **Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau buddiant cynghorau cymuned** | |
| | | **Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau rhoddion a lletygarwch cynghorau cymuned** | |
| | | **Anfonir adroddiad blynyddol y Pwyllgor at yr holl gynghorau cymuned** | |

**6. RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn am gymeradwyaeth y pwyllgor i raglen waith ddrafft am 2014/15.

**PENDERFYNWYD cytuno ar y rhaglen waith a ganlyn:-**

**30 Mehefin, 2014**
- **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
- **Trefn cynnal gwrandawiadau**
- **Llyfr achosion yr Ombwdsmon**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**
- **Gwe ddarlledu (neu gyfarfod Medi)**

**29 Medi, 2014**
- **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cyfarfod cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thrafod y posibilrwydd o gynnal un cyfarfod yn yr Hydref gyda'r cynghorau cymuned**
- **Hyfforddiant**

**26 Ionawr, 2015**
- **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
- **Cofrestr Buddiannau Aelodau Etholedig**
- **Trefn Datrys Anghydfod Lleol**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

- **Ethol aelodau newydd**

**<u>20 Ebrill, 2015</u>**

- **Cyfarfod Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o Grŵp Rheoli'r Cyngor**
- **Protocol Cyfryngau Cymdeithasol**
- **Presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau a hyfforddiant**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Rhaglen waith y Pwyllgor**

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau ynghyd â chopi o benderfyniad llawn Panel Dyfarnu Cymru ar apêl y Cynghorydd A.M.Jones.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y gŵyn gyntaf ar y rhestr yn nwylo'r Ombwdsmon ers blwyddyn.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith na dderbyniwyd llythyr o ymddiheuriad gan y Cynghorydd Jones. Eglurwyd y byddai methiant i ymddiheuro ynddo'i hun yn dorri'r cod ac y byddai'n bosib' gwneud cŵyn pellach pe digwydd hynny.

**PENDERFYNWYD cyfarwyddo'r swyddogion i ddilyn i fyny ar fater yr ymddiheuriad ar ôl i'r Cynghorydd Jones ddychwelyd i'w swydd ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf, ac i'r Cyngor llawn, os na fydd wedi cyflwyno llythyr o ymddiheuriad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.00pm.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 12.06.14

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret E.Jones, Mr Sam Soysa a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:**, Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Y Cynghorydd Charles W.Jones.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Yn wyneb y cyfeiriadau yn yr adroddiad ar eitem 3 isod at anabledd a'r defnydd o gadair olwyn, holodd yr aelodau isod a ddylent ddatgan buddiant am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ar y sail bod ei wraig yn anabl a'i fod yntau'n Is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd. Fe'i gynghorwyd gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith nad oedd hynny'n creu buddiant, ond nododd yr aelod ei fod yn dymuno datgan ei fod yn Is-gadeirydd y Grŵp Mynediad.
- Ms Linda Byrne ar y sail y bu'n gweithio fel Cynghorydd Anabledd yn y Brifysgol am nifer o flynyddoedd a bod ei merch yn defnyddio cadair olwyn. Fe'i cynghorwyd gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith nad oedd hynny'n creu buddiant.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar faterion a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorwyr cyn unrhyw wrandawiadau. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**3. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GWYNION YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'A'**

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

Derbyniwyd dwy gŵyn yn erbyn y cynghorydd ac fe'u hystyriwyd ar wahân.

**PENDERFYNWYD yn achos y ddwy gŵyn -**

**(a) Bod yr aelod sy'n destun yr ymchwiliad yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod.**

**(b) Y dylid symud ymlaen i alw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y materion gan awdurdodi'r swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol.**

**(c) Cynnal y gwrandawiad ar 14 Gorffennaf (gyda'r 15fed fel dyddiad wrth gefn) i gychwyn am 9.30am.**

**(ch) Gwahodd yr Ombwdsmon i'r gwrandawiad.**

## 4. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'B'

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod yr aelod sy'n destun yr ymchwiliad yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod.**

**(b) Y dylid symud ymlaen i alw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater gan awdurdodi'r swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol.**

**(c) Cynnal y gwrandawiad ar 24 Gorffennaf (gyda'r 29ain fel dyddiad wrth gefn) yn Ystafell 2, Swyddfa Penarlâg, Dolgellau, os yn bosib'.**

**(ch) Gwahodd yr Ombwdsmon i'r gwrandawiad.**

**PENDERFYNWYD ymhellach fod y papurau perthnasol yn cael eu hanfon at y ddau aelod sy'n destun yr ymchwiliadau drwy bost cofrestredig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.15pm.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **30 Mehefin 2014** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2013/2014** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi adroddiad blynyddol fel modd o gyflwyno'r Pwyllgor a'i waith i aelodau Cyngor Gwynedd a'r cynghorau cymuned a thref, ac i godi ei broffil yn gyffredinol.

2. Atodaf er sylw'r Pwyllgor ddrafft Adroddiad Blynyddol, ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2014.

**Argymhelliad**

3. Gwahoddir sylwadau a chymeradwyaeth y Pwyllgor.

# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2013/2014

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

[i ddilyn]

**Gwilym Ellis Evans**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

**[i ddilyn]**

**Dilys A Phillips**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau tref/cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

## Aelodau Annibynnol

**Gwilym Ellis Evans**

Mae Gwilym yn byw yn Nolgellau lle y bu'n rhedeg busnes modurdy a gwerthu ceir am bron i 40 mlynedd. Mae wedi gwasanaethu ar sawl tribiwnlys, gan gynnwys Tribiwnlysoedd Diwydiannol ac Apeliadau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n gwasanaethu ar Dribiwnlys Apêl Prisio Gogledd Cymru ar hyn o bryd, yn Gadeirydd CAB Gwynedd a De Môn ac yn Is-gadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. Mae hefyd yn aelod o Gwrp Lliwio Partneriaeth Economeg Gwynedd, yn Gadeirydd Age Cymru, Gwynedd a Môn ac yn Ysgrifennydd Clwb Rotari Dolgellau.

**Samindre (Sam) W. Soysa**

Mae Sam yn byw yn Harlech ac yn gweithio fel Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yng Ngogledd Cymru am bron i 10 mlynedd. Dros y 40 mlynedd diwethaf mae wedi gweithio mewn nifer o uwch swyddi rheolaethol a busnes, gan gynnwys gyda Gweinyddiaeth Ynni Seland Newydd. Mae hefyd yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar Bwyllgorau Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn y gorffennol bu'n ymddiriedolwr/gyfarwyddwr ar C.A.B. Gwynedd a De Ynys Môn, yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol C.A.B. Meirionnydd, yn ogystal â bod yn aelod annibynnol ac Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Linda Byrne

Mae Linda wedi byw yng ngogledd Cymru ers 10 mlynedd, ac erbyn hyn yn gweithio i Gyngor ar Bopeth yng Nghaernarfon fel gwirfoddolwr. Mae ei gŵr yn Gymro a thri o'i wyrion ac wyresau yn siaradwyr Cymraeg. Bu'n darlithio mewn colegau addysg bellach yng ngogledd ddwyrain Lloegr a Chymru cyn gweithio fel Cynghorydd Anabledd i Fyfyrwyr ym mhrifysgolion Durham a Bangor. Gwasanaethodd fel cynghorydd tre am chwe blynedd a chynghorydd bwrdeistrefol am wyth mlynedd yn Sedgefield, Swydd Durham.

## Margaret E Jones

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel

prifathrawes.  Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb.  Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010.  Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

## Einir Young

Mae Einir yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Cymreig ar gyfer Adnoddau Naturiol ym Mhrifysgol Bangor, ac yn gweithio i wireddu'r weledigaeth o droi Bangor yn 'Brifysgol Gynaliadwy'.  Un o brif ddiddordebau Einir yw hwyluso trafodaeth ynglŷn â'r gwrthdaro sy'n deillio o geisio taro'r cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym mhob penderfyniad a wnawn fel busnesau, sefydliadau ac unigolion.  Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Gwynedd.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay**

Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 28 mlynedd ac wedi  bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol.  Mae hefyd newydd orffen gwasanaethu fel cadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru.  Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n aelod a chyn-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Canolog Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.

**Cynghorydd Charles Wyn Jones**

Ganed Charles yn Llanrug ac mae'n dal i fyw yno.  Mae wedi gwasanaethu ar Gyngor Cymuned Llanrug, Cyngor Bwrdeistref Arfon ac, ers 1996, Cyngor Gwynedd, lle bu'n Gadeirydd y Cyngor yn 2004/5.  Mae ar Gyrff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail.  Gweithiodd i British Telecom am 30 mlynedd, lle bu'n rheolwr cynllunio Gwynedd a phennaeth adran gynllunio BT yng Ngogledd Cymru. Wedi ymddeol astudiodd ddiwinyddiaeth drwy Brifysgol Swydd Gaerloyw ac mae wedi bod yn bregethwr ers sawl blwyddyn.  Gwasanaethodd ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru rhwng 2003 a 2012, a bu'n aelod o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

**Cynghorydd Michael Sol Owen**

Mae Michael yn byw ym Mhwllheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012.  Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwllheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes.  Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuenctid Pwllheli.  Ar hyn o bryd mae'n Is-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd a hefyd yn gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

# GWAITH Y PWYLLGOR

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Mae'n gyfrifol am wneud hyn ymysg aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref y sir.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried a phenderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am ollyngiadau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

Yn ogystal â hyn mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

## Rhaglen Waith y Pwyllgor

Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor dros y flwyddyn aeth heibio i'w weld fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

## Aelodaeth

Mae naw aelod ar y Pwyllgor Safonau, sef

- 5 'Aelod Annibynnol'(h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr

hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor un cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma:

| Natur y buddiant | Penderfyniad y Pwyllgor |
|---|---|
| Roedd aelod o gyngor tref hefyd yn aelod o siambr fasnach a thwristiaeth leol. Roedd materion yn ymwneud â'r mudiad hwnnw i'w trafod gan y cyngor. | Caniatáu |

## Honiadau yn erbyn aelodau

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad :

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Bod cynghorydd sir wedi defnyddio ei dudalen Facebook i geisio sylwadau negyddol gan y cyhoedd ynglŷn ag ysgol benodol a bod rhai o'r sylwadau hynny yn sarhaus a di-sail. | Peidio parhau â'r ymchwiliad. |
| Nad oedd cynghorydd tref wedi datgan buddiant | Dim ymchwiliad. |
| Bod cynghorydd sir wedi cyhoeddi, ar ei dudalen Facebook, bod eiddo masnachol wedi cael sgôr o ddim o dan y cynllun hylendid bwyd. | Dim ymchwiliad. |
| Ymddygiad annerbyniol gan aelod cyngor cymuned tuag at ei gymydog | Peidio ymchwilio |
| Cyfleu cynnig ariannol ar ran cwmni lleol, tra'n ymwybodol ei fod yn uwch na chynnig gan gwmni arall. | Dim ymchwiliad |

**Achosion fu gerbron y Pwyllgor**

Ni chyfeiriwyd unrhyw achos at y Pwyllgor Safonau am benderfyniad yn ystod y flwyddyn, ond penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru wrthod apêl gan y Cynghorydd AM Jones, Cyngor Gwynedd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor, ym mis Medi 2012, i'w wahardd am dri mis.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan gynrychiolwyr o blith aelodau'r pwyllgor (fel arfer y Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd) a swyddogion.

## Protocol ar y Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Gynghorwyr

Cytunodd y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ar yr angen i gael protocol ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan gynghorwyr. Sefydlwyd Grŵp Tasg ar y cyd gyda thri aelod o'r ddau bwyllgor i ddrafftio protocol o'r fath, a mabwysiadwyd y protocol gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2014.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Cynhaliodd y Swyddog Monitro sesiynau hyfforddiant, ar y cyd gyda Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, i glercod cynghorau cymuned a thref y sir. Cynhaliwyd y sesiynau yng Nghaernarfon a Dolgellau.

Derbyniodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant gan y Swyddog Monitro ar rôl y Pwyllgor Safonau, y Cod Ymddygiad, ceisiadau am oddefebau a chynnal gwrandawiadau.

**Pwyntiau Cyswllt Defnyddiol**

- **Dilys Phillips, Swyddog Monitro / Siôn Huws, Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith**

  Cyngor Gwynedd, Stryd y Jel, Caernarfon, LL55 1SH,

  E-bost: SionH@gwynedd.gov.uk Ffôn: (01286) 679168 Gwefan: www.gwynedd.gov.uk
- **Ombwdmson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -** www.ombwdsmon-cymru.org.uk
- **Panel Dyfarnu Cymru -** www.paneldyfarnucymru.org.uk

**Atodiad**

**RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2013-14**

**1 Gorffennaf 2013**

- 
- Ystyried cais am oddefeb
- Llunio Rhaglen Waith ar gyfer 2013-14
- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
- Derbyn Adborth o Gynhadledd Safonau Cymru

**30 Medi 2013**

- Cyfarfod gydag arweinyddion grwpiau gwleidyddol y Cyngor
- Sefydlu is-grŵp i ddrafftio Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

**27 Ionawr 2014**

- Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau
- Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau
- Adroddiad y Swyddog Monitro ar weithrediad Safon Gwynedd a'r Drefn Ddatrys Leol
- Cymeradwyo ffurf newydd ar y Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog
- Cymeradwyo'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **30 Mehefin 2014** |
| **Teitl :** | **Adolygu Gweithdrefn Gwrandawiadau y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith |
| **Gweithredu :** | Adolygu'r Drefn |

**Cefndir**

1. Lluniodd y Pwyllgor weithdrefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau ym mis Ebrill 2011. Yn sgil y profiad o gynnal y gwrandawiad cyntaf i ystyried cwyn yn erbyn aelod diwygiwyd y drefn yn 2012 ac fe'i gweithredwyd yn yr achos ddaeth gerbron y Pwyllgor yn hwyrach y flwyddyn honno.

2. Atodir copi o'r drefn bresennol a gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor arni. Gofynnir hefyd os yw'r Pwyllgor yn teimlo y byddai angen unrhyw ddogfennau eraill yn ddefnyddiol i'w cael, e.e. crynodeb o drefn y gwrandawiad i'w dosbarthu i bawb sy'n bresennol.

**Argymhelliad**

3. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y broses o gynnal gwrandawiadau a'r weithdrefn bresennol.

**PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD**

**GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU**

**CEFNDIR**

1. Dyma'r trefniadau a ddilynir pan fydd angen i'r Pwyllgor Safonau ('y Pwyllgor') ddod i benderfyniad ar honiad fod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddogfen hon a darpariaethau statudol Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig, y darpariaethau statudol fydd yn cael y flaenoriaeth.

2. Bydd rhaid i'r Pwyllgor benderfynu ar gŵyn yn erbyn aelod unai:

- ar ôl i'r gŵyn yn cael ei chyfeirio at y Swyddog Monitro gan yr Ombwdsmon i'w ymchwilio ac yna adrodd i'r Pwyllgor; neu

- ar ôl i'r Ombwdsmon gyfeirio adroddiad ar ei ymchwiliad at y Swyddog Monitro i'w gyflwyno i'r Pwyllgor

Ceir dau gam posib i'r broses o ystyried cwyn gan y Pwyllgor Safonau:

**<u>Y CAM CYNTAF</u>**

**CYFARFOD CYNTAF Y PWYLLGOR SAFONAU (GWRANDAWIAD CYCHWYNNOL)**

3. Ar ôl derbyn adroddiad yr Ombwdsmon neu'r Swyddog Monitro ("y Swyddog Ymchwilio"):

- Cynhelir cyfarfod i benderfynu, ar sail adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn unig, unai
  (a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethu a chydymffurfio a'r cod ymddygiad; neu
  (b) bod unrhyw berson sy'n destun yr ymchwiliad yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig i'r Pwyllgor
- Bydd swyddog sydd heb fod yn rhan o'r ymchwiliad neu'r gŵyn ('y Swyddog Cynghori') yn bresennol i ddarparu cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor.
- Ystyrir unrhyw feini prawf y mae'r Pwyllgor wedi eu sefydlu i'w gynorthwyo i ddod i benderfyniad ac i sicrhau cysondeb.
- Os penderfynir y dylid rhoi cyfle i'r sawl sy'n destun y gŵyn ("yr Aelod") gyflwyno sylwadau (h.y. cynnal gwrandawiad llawn) bydd y Pwyllgor yn:
  - Penderfynu os dylid gofyn i'r Swyddog Ymchwilio fynychu'r gwrandawiad i gyflwyno'r adroddiad a/neu i egluro unrhyw faterion sydd ynddo.
  - Penderfynu ar ddyddiad ar gyfer y gwrandawiad i'w cynnig i'r aelod (ynghyd â dau ddyddiad arall wrth gefn).

# YR AIL GAM

## Y GWRANDAWIAD LLAWN

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu y dylai'r Aelod gael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y gŵyn, dilynir y drefn ganlynol:

### Cyn y Gwrandawiad

4. Y bwriad yw sicrhau bod y partïon yn ymwybodol o'r holl faterion sy'n berthnasol i'r achos a bod y broses yn deg, tryloyw a diduedd.

5. Ysgrifennir at y sawl sy'n destun y gŵyn gan ofyn iddo/iddi gadarnhau'n ysgrifenedig (drwy holiadur) o fewn 14 diwrnod os yw'n**:**

- dymuno cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar
- yn anghytuno gydag unrhyw ganfyddiadau ffeithiol yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio
- bwriadu cael ei gynrychioli gan gyfreithiwr, bargyfreithiwr neu unrhyw berson arall
- dymuno galw tystion i roi tystiolaeth gerbron y pwyllgor.
- credu y dylai unrhyw ran o'r cyfarfod / dogfennau fod yn gyfrinachol

6. Cynhelir cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Cynghori i ystyried os yw'r wybodaeth sydd i law yn ddigonol ar gyfer y gwrandawiad. Byddant yn penderfynu ar yr angen am unrhyw gamau pellach i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i'r Pwyllgor, a/neu unrhyw gwestiwn arall ynglŷn â chynnal y gwrandawiad. Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath ar unrhyw gam o'r broses, yn ôl yr angen.

7. Hysbysir y Swyddog Ymchwilio o'r gwrandawiad arfaethedig a gofyn a yw'n bwriadau mynychu.

8. Anfonir ymateb yr Aelod i'r cwestiynau uchod at y Swyddog Ymchwilio a gofyn iddo/iddi gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod os yw'n*:*

- bwriadau cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad
- dymuno galw tystion i roi tystiolaeth gerbron y pwyllgor.
- credu y dylai unrhyw ran o'r cyfarfod /unrhyw ddogfennau fod yn gyfrinachol

9. Pwysleisir wrth bob parti bod rhaid darparu manylion ymlaen llaw o'r holl ganfyddiadau ffeithiol y maent yn fwriadau eu herio a'r dystiolaeth y maent yn fwriadau ei gyflwyno.

10. Anfonir yr wybodaeth ganlynol at aelodau'r Pwyllgor, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio ymlaen llaw:

- Adroddiad y Swyddog Ymchwilio
- Sylwadau ysgrifenedig yr aelod
- Unrhyw ymateb ysgrifenedig pellach gan y Swyddog Ymchwilio
- Amlinelliad o'r ffeithiau sydd wedi eu cytuno a'r rhai sydd heb eu cytuno
- Rhestr o dystion
- Os bydd yr aelod yn mynychu'r cyfarfod ac os cynrychiolir ef/hi yno
- Os bydd y Swyddog Ymchwilio yn mynychu ac os cynrychiolir ef/hi yno
- Y drefn ar gyfer y gwrandawiad

11. Os yw'r aelod wedi dweud y bydd yn mynychu'r gwrandawiad, cysylltir gydag ef/hi ychydig ddyddiau ymlaen llaw i gadarnhau os bydd yn gwneud hynny.

## <u>**Y Gwrandawiad**</u>

12. Bydd y drefn ar gyfer y gwrandawiad yn dilyn yr hyn a nodir isod, yn ddarostyngedig i hawl y Cadeirydd i newid y trefniadau er mwyn sicrhau gwrandawiad teg ac effeithlon. Dylid ceisio cadw'r cyfarfod mor anffurfiol ag sy'n briodol. Mae tri cham posib i wrandawiad:

### Cam 1 y gwrandawiad - Materion Trefniadol Rhagarweiniol

Bydd y Cadeirydd yn croesawi pawb ac yn sicrhau bod pawb wedi eu cyflwyno. Bydd yn egluro'r trefniadau ymarferol ar gyfer y dydd ac yna'n egluro'r camau a ddilynir yn y gwrandawiad ei hun.

Bydd cyfle yn gyntaf i'r Pwyllgor ystyried unrhyw faterion sydd yn codi ynglŷn â sut y dylid cynnal y gwrandawiad , gan gynnwys:

- A ddylid eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r gwrandawiad neu rannau ohono.
- Unrhyw faterion sydd wedi dod i sylw'r Pwyllgor ers paratoi'r rhaglen
- A ddylid parhau yn absenoldeb unrhyw barti. Os nad yw'r Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol neu yn cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, gall y Pwyllgor, os yw'n fodlon ei f/bod wedi cael rhybudd o'r gwrandawiad, ac nad oes rheswm da dros absenoldeb o'r fath wrando a phenderfynu ar y mater yn ei (h)absenoldeb, ac ar sail unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddo/i. Fel arall, gall ohirio'r gwrandawiad.
- Os yw'r Pwyllgor yn fodlon (ar ôl derbyn tystysgrif feddygol) fod parti yn methu mynychu drwy waeledd a bod hynny yn debygol o barhau am gyfnod hir, gall y Pwyllgor wneud y trefniadau sydd yn ymddangos fel y rhai gorau i ddelio gyda'r mater yn deg.

**Cam 2 y gwrandawiad - Penderfynu a wnaeth yr Aelod dorri'r Cod Ymddygiad**

Bydd rhaid i'r Pwyllgor benderfynu ar unrhyw ffeithiau sydd yn destun anghydfod, ac os yw'r hyn ddigwyddodd yn golygu bod yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

**Rheolau Trafod Cyffredinol**

- Gall aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i unrhyw un sy'n bresennol ar unrhyw adeg.
- Ni chaniateir croesholi gan y partïon. Caniateir cyfeirio cwestiynau drwy'r Gadair.
- Bydd y Pwyllgor yn penderfynu cwestiynau ffeithiol yn ôl pwysau tebygolrwydd.
- Os codir unrhyw fater neu dystiolaeth newydd y gellid fod wedi ei godi yn ystod y broses 'cyn-wrandawiad', y dybiaeth fydd na ddylid ei ganiatau heblaw bod rheswm da dros wneud hynny.

**Dilynir y drefn ganlynol:**

- Gwahoddir y Swyddog Ymchwilio i gwyflwyno ei (h)adroddiad.
- Gall alw tystion gyda chaniatâd y Pwyllgor.
- Gall y Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio a/neu unrhyw dystion
- Gall yr Aelod ofyn cwestiynau (drwy'r Gadair) i'r Swyddog Ymchwilio a/neu unrhyw dystion.

- Gwahoddir yr Aelod i gyflwyno ei achos.
- Gall alw tystion gyda chaniatâd y Pwyllgor.
- Gall y Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r Aelod a/neu unrhyw dystion
- Gall y Swyddog Ymchwilio ofyn cwestiynau (drwy'r Gadair) i'r Swyddog Ymchwilio a/neu unrhyw dystion
- Caiff y Swyddog Ymchwilio, ac yna yr Aelod, y cyfle i grynhoi eu hachos.

- Bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i ystyried ei benderfyniad
- Bydd y Pwyllgor yn ystyried yn gyffredinol y math o gosb fyddai'n addas yn yr achos.
- Hyd yn oed os yw'r Pwyllgor yn penderfynu na dorrwyd y cod, gall ystyried os dylai wneud unrhyw argymhellion cyffredinol i'r Cyngor i sicrhau na fydd sefyllfa debyg yn codi eto.
- Ar ôl dod i benderfyniad, bydd y cyfarfod yn ailymgynnull a bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y Pwyllgor

**Cam 3 y gwrandawiad - Penderfynu pa gamau i'w cymryd**

Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu fod yr aelod wedi torri'r cod dilynir y drefn ganlynol:

- Bydd y Cadeirydd yn rhoi awgrym o'r math o gosb y gallai'r Pwyllgor ei ddyfarnu a gwahodd sylwadau gan y partion.
- Bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i ystyried ei benderfyniad os dylid cosbi'r aelod, ac os felly pa gosb a dyllid ei roddi, ac os dylai wneud unrhyw argymhellion cyffredinol i'r Cyngor
- O safbwynt cosb, gall y Pwyllgor benderfynu:

  (a) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad â'r methiant i gydymffurfio â'r cod; neu
  (b) y dylid ceryddu'r aelod; neu
  (c) y dylid atal yr aelod yn llawn neu yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i (h)awdurdod am gyfnod sydd ddim yn fwy na chwe mis
- Ar ôl dod i benderfyniad bydd y cyfarfod yn ailymgynnull a bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad

**<u>Ar ôl y Gwrandawiad</u>**

13. Darperir y penderfyniad ar ffurf Rhybudd Penderfyniad ysgrifenedig yn fuan wedyn.

14. Bydd y Pwyllgor yn trefnu fod adroddiad yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu yn unol â gofynion y Rheoliadau. Ar ôl derbyn yr adroddiad, bydd y Swyddog Monitro yn ei gyhoeddi yn unol â gofynion y Rheoliadau.

# Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd
# Holiadur Gwrandawiad

**Compliant made against: [enw ac awdurdod yr aelod]**

**Cyfeirnod Achos yr Ombwdsmon: [ ]**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Ydych chi'n bwriadu mynychu gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ar [dyddiad y gwrandawiad] ?**<br><br>**Ydw / Nad ydw**<br><br>**Os nad ydych eglurwch pam.** |
| **2.** | **Oes yna faterion yn Adroddiad yr Ombwdsmon yr ydych yn anghytuno a nhw?**<br><br>**Oes / Nag oes**<br><br>**Os oes, nodwch pa rai ydynt.** |

| | |
|---|---|
| **3.** | **Ydych chi'n dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau neu ddogfennau i'r Pwyllgor?**<br><br>**Ydw / Nac ydw**<br><br>***Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau neu ddogfennau at y Swyddog Monitro wrth ymateb i'r holiadur hwn, neu erbyn [pythefnos cyn y gwrandawiad] fan bellaf.** ***Ni chaniateir cyflwyno tystiolaeth hwyr heblaw bod rheswm da dros wneud hynny.***<br><br>**Os yn bosib, rhestrwch y dogfennau isod.** |

| | |
|---|---|
| **4.** | **A fyddwch yn gofyn i unrhyw dystion siarad ar eich rhan yn y gwrandawiad?**<br><br>**Byddaf / Na fyddaf**<br><br>**Os ydych, nodwch pwy ydynt ac am ba faterion y byddant yn siarad.** |
| **5.** | **Ydych chi'n credu y dylai unrhyw rannau o'r dogfennau fydd gerbron y Pwyllgor gael eu cadw rhag y cyhoedd neu y dylai unrhyw ran o'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat?**<br><br>**Ydw / Nad ydw**<br><br>**Os felly eglurwch pam.** |

| | |
|---|---|
| **6.** | **A fydd rhywun yn cyflwyno eich achos ar eich rhan?**<br><br>**Bydd / Na fydd**<br><br>**Os bydd rhowch ei (h)enw os gwelwch yn dda a chadarnhau os yw'n gyfreithiwr neu fargyfreithiwr.** |
| **7.** | **Os ydych am gael eich cynrychioli gan gyfreithiwr/bargyfreithiwr, ydych ch i am wneud cais am indemniad o dan bolisi'r Cyngor? *(Gweler dogfen atodol am fanylion y polisi)*.**<br><br>**Ydw / Nac ydw** |
| **8.** | **Oes gennych chi, eich cynrychiolydd neu eich tystion unrhyw broblemau mynediad neu anghenion eraill? (e.e. mynediad cadair olwyn?)**<br><br>**Oes / Nag oes**<br><br>**Os oes, rhowch fanylion** |

***Arwyddwyd …………………………………………….......................... Dyddiad…………………………***

***Cwblhewch yr holiadur a'i ddychwelyd at y Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH***

# Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad

**Rhifyn 1 Tachwedd 2013**

## Tu fewn

Rhagair yr Ombwdsmon 1

Cwflwyniad 3

**Crynodebau Achosion**

Dim tystiolaeth o dor-amod 4

Nid oes angen gweithredu 6

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau 11

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru 14

Mwy o Wybodaeth 16

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

## Rhagair yr Ombwdsmon

Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyflwyno'r rhifyn cyntaf o'r 'Llyfr Achosion Cod Ymddygiad'. Mae 'Llyfr Achosion yr Ombwdsmon', sy'n cynnwys ymchwiliadau i gwynion am gamweinyddu a methiannau gwasanaethau, yn cael ei gyhoeddi'n chwarterol, ac mae wedi bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'w ddarllenwyr. Mae wedi'i gynllunio'n bennaf er mwyn cyflwyno canfyddiadau ymchwiliadau ac atebion cyflym, er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau eraill ddysgu drwy'r rhain a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae pobl wedi bod yn gofyn ers tro am gyhoeddiad tebyg ar ymchwiliadau Cod Ymddygiad, ond mae wedi bod yn fwy heriol i'w gynhyrchu. Er bod canlyniadau achosion o gamweinyddu yn arwain at adroddiadau ac argymhellion gan fy swyddfa i, mae achosion lle ceir tystiolaeth o weithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad yn cael eu cyfeirio, naill ai i'r Pwyllgor Safonau neu Dribiwnlys sy'n cael ei gynnal gan Banel Dyfarnu Cymru i gael penderfyniad. O ganlyniad i hyn, mae'n anoddach darparu hanes llawn achos yn ein crynodeb. Rydym wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd drwy achosion y Cod ar ffurf achosion enghreifftiol, fodd bynnag, wrth ddatblygu canllaw ar gyfer Cynghorwyr Cynghorau Sir a Chynghorwyr Cynghorau Cymuned, sydd ar gael yma.

Er mwyn datblygu'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad, rydym wedi cynnwys crynodebau ym mhob adroddiad rydym wedi'i gynhyrchu, p'un a yw'r achos yn cael ei gyfeirio ai peidio. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Swyddogion Monitro'r Awdurdod Lleol ac i Banel Dyfarnu Cymru am ganiatáu i ni gynnwys cysylltiadau i'w dyfarniadau er mwyn gallu adrodd hanes llawn pob achos.

(Parheir trosodd)

Rwy'n gobeithio y byddant yn ddefnyddiol i chi, ac rwyf hefyd yn gobeithio y byddant yn ddefnyddiol i aelodau cynghorau cymuned, tref a sir, wrth iddynt ystyried sefyllfaoedd posibl o weithredu'n groes i'r Cod.

Yn ddiweddar, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr achosion sy'n cael eu harchwilio gan fy swyddfa, ac rwy'n credu bod cyflwyno dulliau datrys lleol gan gynghorau sir wedi chwarae rhan bwysig yn hyn. Yn ddelfrydol, byddai'n braf gweld gostyngiad pellach yn y misoedd i ddod.

Mae'r mwyafrif helaeth o gynghorwyr yn ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd agored, dryloyw a chymwynasgar. Mae enghreifftiau o ymddygiad gwael yn brin, diolch i'r drefn. Mae'r problemau gwirioneddol yn codi pan fydd drwgdeimlad rhwng cynghorwyr yn cael datblygu i'r pwynt o ddadleuon parhaus, gyda chynghorwyr yn cymryd ochrau ac yn mabwysiadu safbwyntiau disymud. Bydd hyn yn digwydd fel arfer mwn cynghorau tref neu gynghorau cymuned ac mae'r materion sydd wrth wraidd yr anghydfodau, os gellir cofio beth oeddent, yn aml yn faterion dibwys.

Rwy'n gobeithio y bydd y cynghorau dan sylw yn edrych ar eu hunain o ddifrif, ac yn sylweddoli eu bod yn dwyn anfri arnynt eu hunain a'u cynghorau, a'u bod yn gofyn am gymorth, naill ai gan eu swyddog monitro neu Un Llais Cymru, er mwyn datrys yr anghydfod. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Swyddog Monitro Dinas a Sir Abertawe, sydd wedi bod yn cyfryngu'n bersonol er mwyn datrys un ffrae hirfaith. Mae ei waith ef, a gwaith ei gydweithwyr ar hyd a lled Cymru, wedi bod o gymorth mawr i fy swyddfa, yn ein hymdrechion i wella cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad.

Er mai hwn yw'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad cyntaf, rwyf hefyd yn rhagweld mai hwn fydd fy un olaf, oherwydd y byddaf yn symud i fy rôl newydd maes o law. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'r gorau i bawb sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol yng Nghymru, wrth iddynt wynebu cyfnodau heriol iawn, a hoffwn dalu teyrnged hefyd i waith rhai unigolion a sefydliadau pwysig sydd wedi llwyddo i godi safonau, yn cynnwys Panel Dyfarnu Cymru, o dan arweinyddiaeth fedrus y llywydd, Peter Davies; Stephen Phipps a fu'n glerc hirsefydledig i'r Panel ac yn y gwaith o ddatblygu polisïau ar gyfer Llywodraeth Cymru, a Steve Thomas a Daniel Hurford yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.



Peter Tyndall

Ombwdsmon

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o bob adroddiad sydd wedi'u cyhoeddi gan y swyddfa hon yn y chwe mis diwethaf, a bydd canfyddiadau'r crynodebau hyn yn cynnwys un o'r pedwar dyfarniad uchod. Yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth a dor-amod

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch - Dinas a Sir Abertawe**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnodau'r achos 201204336, 201204337, 201204338, 201204389 a 201204706**

**Y**n dilyn cwynion a wnaethpwyd gan bum unigolyn, bu'r Ombwdsmon yn ymchwilio a oedd Cynghorydd wneud gwneud sylwadau sarhaus a difrïol ac wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol yn ystod cyfarfod Pwyllgor Rheoli a Rheoli Datblygiad Arbennig.

Cafodd yr Ombwdsmon gopïau o'r dogfennau perthnasol gan y Cyngor. Yn ogystal, cafodd yr Ombwdsmon ddisgrifiadau o'r hyn a ddigwyddodd gan unigolion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor. Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd dan sylw ymateb i'r gŵyn.

Ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd ar gael, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – Cyngor Sir Powys**
**Mehefin 2013 - Cyfeirnod yr achos 201203179**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Sir Powys wedi torri amodau'r cod ymddygiad trwy anfon llythyrau at aelodau Cyngor Tref Llandrindod a oedd yn cynnwys datganiadau anwireddus, a wnaeth beri aflonyddwch, braw a gofid i'r achwynydd.

Bu'r ymchwiliad yn ystyried a oedd y Cynghorydd wedi torri amodau'r Cod a oedd yn ymwneud â bwlio a harasio a dwyn anfri ar swydd yr aelod. Cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth gan yr Heddlu a'r Llys Sirol; yn ogystal, darparwyd sylwadau ysgrifenedig gan y Cynghorydd dan sylw. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd, daethpwyd i'r casgliad, wrth ddosbarthu'r llythyrau, nad bwriad y Cynghorydd oedd aflonyddu, achosi braw na gofid i'r achwynydd. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y datganiad a wnaethpwyd yn llythyrau'r Cynghorydd (er gwaethaf y ffaith ei bod yn debygol bod terminoleg wedi cael ei chamddefnyddio mewn perthynas ag un datganiad) yn cynrychioli'r gwir ar y cyfan.

Y canfyddiad oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

**Datgelu a chofrestru buddiannau – Cyngor Cymuned Cefn**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnod yr achos 201202501**

Roedd Mr A wedi cwyno bod aelod o Gyngor Cymuned Cefn wedi methu datgelu budd personol a rhagfarnus ym musnes ymddiriedolaeth elusennol y mae'n ymddiriedolwr ohono, yn rhinwedd ei statws fel cynghorydd ar Gyngor Cymuned Cefn. Dywedodd Mr A mai'r budd oedd bod ffrind personol agos y Cynghorydd yn Rheolwr Cyffredinol clwb pêl-droed a oedd yn chwarae ar faes yr oedd yr ymddiriedolaeth elusennol yn berchen arno. Yn ogystal, cwynodd Mr A am y ffaith bod y Cynghorydd wedi defnyddio ei safle er mwyn rhoi'r clwb pêl-droed dan anfantais ar ôl i'w ffrind ymddiswyddo o'r clwb.

Bu'r Ombwdsmon yn ystyried cofnodion amrywiol yn deillio o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned a'r ymddiriedolaeth elusennol, yn ogystal â chopïau o ddogfennaeth a oedd yn ymwneud â statws yr ymddiriedolaeth elusennol. Bu'r Ombwdsmon yn ystyried gohebiaeth gwyno a gyfnewidiwyd gan y Cyngor Cymuned a hefyd, bu'n cyfweld tri aelod o'r Cyngor Cymuned a'r Clerc.

Ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi defnyddio ei safle er mwyn rhoi'r clwb pêl-droed dan anfantais. Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod cyswllt y Cynghorydd gyda Rheolwr Cyffredinol y Clwb Pêl-droed yn golygu bod angen iddo ddatgelu budd personol mewn perthynas ag ef.

Canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod amodau'r Cod wedi cael eu torri.

## Nid oes angen gweithredu

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – Cyngor Sir Ynys Môn**
**Awst 2013 - Cyfeirnod yr achos 201204406**

Fe wnaed cwyn bod aelod o Gyngor Sir Ynys Môn wedi torri'r cod ymddygiad yn ystod darllediad byw rhaglen materion cyfoes mewn gwrthdaro ag un o'r panelwyr drwy wneud sywladau am y panelwr a ystyriwyd i fod yn bersonol, sarhaus a di-angen.

Y casgliad oedd bod sylwadau'r Cynghorydd ar y cyfan yn fynegiant gwleidyddol nid personol ac nad oeddynt yn fater o dorri'r cod. Serch hynny, yn ystod rhan o'r drafodaeth, fe wnaeth y Cynghorydd wneud sylw at linach y panelwr. Ystyriwyd y byddai'n bosib dehongli'r hyn a ddwedwyd fel mynegiant personal a di-angen ac nid mynegiant gwleidyddol. Fe ystyriwyd bod ei sylwadau yn anoeth ac anaddas.

Y canfyddiad oedd nad oedd angen gweithredu yng nghyswllt y materion yr ymchwiliwyd iddynt.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Awst 2013 - Cyfeirnod yr achos 201203463**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu dilyn y cod ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor. Yn ystod cyfarfod Cymdeithas Gymunedol Pentricwm, honnwyd bod y Cynghorydd wedi cyhuddo'r achwynydd o fethu â chynnal cyfrinachedd yng nghyd-destun eu gwaith ym maes gofal canser. Dywedodd yr achwynydd bod y cyhuddiad wedi niweidio eu henw da a bod eu statws yn y gymuned wedi dioddef o ganlyniad. Yn ogystal, roedd yr achwynydd yn honni bod y Cynghorydd wedi pwyntio'u bys ac wedi gwaeddi arnynt yn uniongyrchol. Dywedodd yr achwynydd bod y Cynghorydd wedi parhau i ymosod arnynt ar lafar, gan wrthod sawl cais gan y cadeirydd i roi'r gorau iddi.

Yn ystod yr ymchwiliad, casglwyd tystiolaeth gan y Cyngor a chan PCA. Yn ogystal, cyfwelwyd y Cynghorydd dan sylw, yr achwynydd, a phedwar tyst.

Canfu'r ymchwiliad nad oedd tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri'r Cod drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at yr achwynydd. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn gwrthdaro ynghylch yr union bethau a ddywedwyd a sut y cawsant eu dweud. Yn ogystal, roedd tystiolaeth i awgrymu bod unrhyw beth a ddywedwyd wedi cael ei wneud yng ngwres y funud yn dilyn rhywfaint o bryfocio gan bobl arall. Atgoffwyd y Cynghorydd o'i ddyletswydd dan y Cod, a chanfuwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – Cyngor Tref Penmaen-mawr**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnod yr achos 201201768**

Cwynodd Ms W bod aelod o Gyngor y Dref wedi ymddwyn yn ymosodol tuag ati. Roedd eraill wedi bod yn dyst i hyn. Cyfwelwyd y Cynghorydd a gwadodd yr honiad mewn ffordd daer. Wedi ymchwilio, penderfynodd yr Ombwdsmon, gan fod y dystiolaeth yn anghyson, na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – Aelod o Gyngor Cymuned Llanfaelog**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnodau’r achos 201201908, 201201909, 201201910, 201201911 a 201201913**

Gwnaethpwyd sawl cwyn ynghylch ymddygiad Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanfaelog. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi defnyddio iaith anweddus ac wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol yn ystod cyfarfod.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio i’r mater er mwyn pennu a oedd tystiolaeth o dorri amod yn y Cod Ymddygiad, sy’n gofyn bod aelodau yn dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill ac i beidio ymddwyn mewn ffordd a allai ddwyn anfri ar rôl aelod neu ar y Cyngor ei hun.

Cafwyd tystiolaeth gan bob aelod o’r Cyngor a oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn cefnogi’r ffaith y clywyd y Cynghorydd yn mwmian geiriau sarhaus dan ei wynt. Fodd bynnag, nid yw’n ymddangos bod yr iaith a ddefnyddiwyd wedi cael ei chyfeirio’n benodol at unigolyn. Dywedodd y Cynghorydd y gallai fod wedi defnyddio’r iaith a ddisgrifiwyd fel ffordd o leisio’i rwystredigaeth yn ystod y cyfarfod.

Canfu’r Ombwdsmon bod y dystiolaeth yn awgrymu y gallai gweithredoedd y Cynghorydd fod wedi torri amodau’r Cod. Fodd bynnag, er na fyddai’n esgusodi defnyddio iaith o’r fath mewn unrhyw sefyllfa, wrth wneud ei benderfyniad, roedd yr Ombwdsmon yn cadw mewn cof mai un digwyddiad oedd hwn, bod y sylwadau wedi cael eu gwneud yng ngwres y funud ac nad oeddent wedi cael eu cyfeirio at unigolyn penodol. Ar y sail hon, penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â’r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

**Datgelu a chofrestru buddiannau – Cyngor Cymuned Cefn**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnod yr achos 201202499**

Cwynodd Mr A bod aelod o Gyngor Cymuned Cefn wedi methu datgelu budd personol a rhagfarnus ym musnes ymddiriedolaeth elusennol yr oedd yn ymddiriedolwr ohoni yn rhinwedd ei statws fel cynghorydd ar Gyngor Cymuned Cefn. Dywedodd Mr A mai’r budd oedd bod mab y Cynghorydd yn Rheolwr Cynorthwyol clwb pêl-droed a oedd yn chwarae ar faes yr oedd yr ymddiriedolaeth yn berchen arno. Yn ogystal, cwynodd Mr A bod y Cynghorydd wedi defnyddio’i safle fel cynghorydd er mwyn rhoi’r clwb pêl-droed dan anfantais ar ôl i’w fab ymddiswyddo o’r clwb.

Wedi ymchwilio, ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi defnyddio'i safle i roi'r clwb pêl-droed dan anfantais, ond canfu y gallai fod wedi methu datgelu budd personol a rhagfarnus mewn ffordd gywir. Er y daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y dystiolaeth yn awgrymu y torrwyd y Cod Ymddygiad, nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi gwneud hynny'n fwriadol.

Canfyddiad yr Ombwdsmon oedd na fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion y cwynwyd amdanynt.

**Datgelu a chofrestru buddiannau – Cyngor Cymuned Cefn**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnod yr achos 201202500**

Cwynodd Mr A bod aelod o Gyngor Cymuned Cefn wedi methu datgelu budd personol a rhagfarnus ym musnes ymddiriedolaeth elusennol yr oedd yn ymddiriedolwr ohoni yn rhinwedd ei statws fel cynghorydd ar Gyngor Cymuned Cefn. Dywedodd Mr A mai'r budd oedd bod brawd-yng-nghyfraith y Cynghorydd yn rheolwr cyffredinol clwb pêl-droed a oedd yn chwarae ar faes yr oedd yr ymddiriedolaeth yn berchen arno. Yn ogystal, cwynodd Mr A bod y Cynghorydd wedi defnyddio'i safle fel cynghorydd er mwyn rhoi'r clwb pêl-droed dan anfantais ar ôl i'w frawd yng nghyfraith ymddiswyddo o'r clwb.

Ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi defnyddio'i safle i roi'r clwb pêl-droed dan anfantais, ond canfu y gallai fod wedi methu datgelu budd personol a rhagfarnus mewn ffordd gywir. Er i'r Ombwdsmon ddod i'r casgliad bod y dystiolaeth yn awgrymu torri'r Cod Ymddygiad, nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi gwneud hynny'n fwriadol.

Canfyddiad yr Ombwdsmon oedd na fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion y cwynwyd amdanynt.

**Datgelu a chofrestru buddiannau – Cyngor Cymuned Rogiet**
**Mehefin 2013 - Cyfeirnod yr achos 201204415**

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod cyn aelod o Gyngor Cymuned Rogiet wedi torri amodau'r cod ymddygiad. Honnwyd bod y cyn Gynghorydd wedi methu datgelu budd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Cyfetholwyd y cyn Gynghorydd i'r Cyngor Cymuned ym mis Gorffennaf 2012. Roedd y Cyngor Cymuned yn rheoli rhandiroedd ar ran y Cyngor Sir. Roedd y cyn Gynghorydd wedi bod yn ddeiliad rhandir ers sawl blynedd.

Bu'r ymchwiliad yn ystyried gwybodaeth gan yr achwynydd, y cyn Gynghorydd, y Cyngor Cymuned a Chyngor Sir Fynwy. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod y cyn Gynghorydd, o dro i dro, wedi methu datgelu budd personol yn ystod trafodaethau'r Cyngor Cymuned ynghylch y rhandiroedd. Felly, roedd ymddygiad y cyn Gynghorydd yn awgrymu bod amodau'r Cod wedi cael eu torri. Fodd bynnag, roedd y cyn Gynghorydd wedi ymddiswyddo o'r Cyngor ym mis Ebrill 2013. Felly,

canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. Atgoffwyd y cyn Gynghorydd o'r ffaith os byddai'n cael ei ethol yn aelod o gyngor yn y dyfodol y dylai gadw mewn cof ei ddyletswydd i gydymffurfio â'r Cod.

**Datgelu a chofrestru buddiannau – Cyngor Cymuned Blaen-gwrach**
**Mehefin 2013 - Cyfeirnod yr achos 201204755**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymarfer ar 14 Chwefror 2013 drwy aros yn yr ystafell pan fu'r Cyngor Cymuned yn trafod materion yn ymwneud â'i gŵr. Cwynodd yr achwynydd hefyd fod y Cynghorydd ac eraill wedi gwneud sylwadau amhriodol iddi am fod wedi dwyn ymddygiad ei gŵr i sylw'r Cyngor Cymuned. Roedd hyn wedi achosi pryder i'r achwynydd.

Er bod cof y ddau barti'n amrywio o ran yr union amgylchiadau pryd yr arhosodd y Cynghorydd yn yr ystafell pan oedd materion yn ymwneud â'i gŵr yn cael eu trafod, barn yr Ombwdsmon oedd na ddylai hi fod wedi aros. Cyfrifoldeb pob aelod yw penderfynu a oes ganddynt ddiddordeb personol ai peidio ac nid yw barn aelodau eraill ar y mater yn berthnasol. Yn ogystal, y mae'n amlwg fod mater yn ymwneud â pherson â pherthynas mor agos at aelod yn achosi diddordeb personol ac un sy'n rhagfarnu.

Mae'r Cod ei hun ac Arweiniad yr Ombwdsmon i Aelodau'n eithaf eglur ynghylch y materion hyn. Canfu'r Ombwdsmon yn amodol fod tystiolaeth y gallai toriad fod wedi digwydd dan ddarpariaethau perthnasol y Cod, ond ei bod yn annhebygol y byddai cosb yn cael ei gosod pe byddai toriad o'r fath yn cael ei ganfod. Yn unol â'i weithdrefnau, ymgynghorodd yr Ombwdsmon â'r Swyddog Monitro, a gytunodd fod cosb yn annhebygol ond dywedodd y byddai'n cyhoeddi cyngor priodol i'r Cyngor Cymuned ar bwnc buddiannau personol. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd angen unrhyw weithredu pellach yn amgylchiadau'r gŵyn benodol hon.

Yng nghyswllt pryderon am sylwadau amhriodol yn cael eu gwneud gan y Cynghorydd, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi fod y sylwadau fel yr adroddwyd hwy yn darparu tystiolaeth ddigonol o doriad. Canfyddiad yr Ombwdsmon yng nghyswllt y mater hwnnw oedd nad oedd tystiolaeth o doriad dan y ddarpariaeth berthnasol.

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith – Cyngor Sir Penfro**
**Gorffennaf 2013 - Cyfeirnod yr achos 201201986**

Gwnaethpwyd cwyn bod cyn Gynghorydd wedi defnyddio systemau cyfrifiadurol y Cyngor er mwyn creu taflenni etholiad ar gyfer ei gydweithwyr. Cyfwelwyd y cyn Gynghorydd, ac roedd yn derbyn ei fod wedi creu, neu mai ef oedd yr unigolyn diweddaf i safio, 23 ffeil a oedd yn cynnwys deunydd etholiad a maniffestos ar gyfer rhai ymgeiswyr a oeddent yn cael anhawster wrth ddefnyddio cyfrifiaduron. Dywedodd nad oedd unrhyw rai o'r ffeiliau wedi cael eu hargraffu gan ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

Roedd y cyn Gynghorydd yn derbyn nad oedd polisi mewnol a Chod Ymddygiad y Cyngor yn caniatáu i aelodau ddefnyddio'i adnoddau at ddibenion gwleidyddol. Yn ogystal, roedd yn derbyn ei bod yn anghywir ei fod wedi gwneud hynny, ac roedd o'r farn y dylid newid y rheolau ynghylch defnyddio cyfrifiaduron y Cyngor.

Yr oedd tystiolaeth a oedd yn awgrymu fod y Cod wedi'i dorri a chyfeiriwyd y mater at Swyddog Monitro'r Cyngor er mwyn penderfynu a oedd yn dymuno ystyried y mater yn lleol. Cytunodd y Swyddog Monitro â'r Ombwdsmon, gan bod y cyn Gynghorydd wedi ymddeol ac wedi symud o'r ardal, na fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach.

**Gwrthrychedd a phriodoldeb – Cyngor Tref Llandrindod**
**Ebrill 2013 - Cyfeirnod yr achos 201204096**

Roedd y gŵyn yn deillio o gŵyn arall a oedd yn destun ymchwiliad. Ystyriodd yr ymchwiliad y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad o ran y ffordd yr oedd wedi delio â chwyn a wnaethpwyd i'r Cyngor am ymddygiad Cynghorydd arall.

Roedd yn ymddangos nad oedd y Cynghorydd wedi ystyried ei gyswllt personol gyda'r unigolyn y cwynwyd amdano, a'i fod hefyd wedi methu â chydymffurfio â gweithdrefn y Cyngor, ac fe allai hyn fod wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Roed y dystiolaeth hefyd yn nodi y gallai'r Cynghorydd fod wedi datgelu gwybodaeth y gellid yn rhesymol ystyried ei bod yn gyfrinachol.

Er bod tystiolaeth i awgrymu bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi cael eu torri, penderfynodd yr Ombwdsmon bod natur y materion yn ddibwys a'i bod yn annhebygol y byddai pwyllgor safonau yn pennu sancsiwn. Cyfeiriwyd y mater at Swyddog Monitro y Cyngor, a wnaeth farnu na fyddai unrhyw weithgarwch ymchwilio lleol pellach yn briodol.

## Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau

**Gwrthrychedd a phriodoldeb – Cyngor Tref Gorseinon**
**Ebrill 2013 - Cyfeirnod yr achos 201201628**

Roedd yr Ombwdsmon wedi cael cwyn bod aelod o Gyngor Tref Gorseinon wedi methu dilyn y cod ymddygiad. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi gwneud datganiadau anwireddus a maleisus am far a bwyty lleol yn ystod un o gyfarfodydd Cyngor y Dref. Dywedodd yr achwynydd bod y sylwadau wedi cael eu hadrodd ym mhapur South Wales Evening Post ac ar wefan gysylltiedig yn dilyn hyn. Dywedodd yr achwynydd bod y Cynghorydd yn byw gerllaw yr eiddoa'i fod yn defnyddio'i safle i "barhau fendeta" yn ei erbyn.

Dywedodd y Cynghorydd nad oedd wedi cael hyfforddiant am y Cod ac nad oedd o'r farn ei fod wedi torri'i amodau. Dywedodd bod ei sylwadau yn "...gredoau dilys, rhesymol a gonest, ac yn cynrychioli ...safbwyntiau [ei] etholwyr [a] thrigolion niferus Gorseinon...". Cadarnhaodd ei fod wedi gwneud y sylwadau ond dywedodd nad oedd yn gwybod bod y wasg yn bresennol. Os byddai wedi gwybod, dywedodd efallai "...y byddai wedi dewis geiriau gwahanol...".

Sefydlodd yr ymchwiliad y gallai fod gan y Cynghorydd fudd personol a rhagfarnus yn nhrafodaethau'r Cyngor am y bwyty. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ymddygiad y Cynghorydd yn awgrymu torri'r Cod. Cyfeiriwyd adroddiad yr Ombwdsmon at Swyddog Monitro Dinas a Sir Abertawe, er mwyn iddo gael ei ystyried gan ei Bwyllgor Safonau. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau bod ymddygiad y Cynghorydd wedi torri amodau'r Cod, ond daeth i'r casgliad na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

Mae modd gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

**Hybu cydraddoldeb a pharch – Cyngor Sir Fynwy**
**Mawrth 2013 – Rhif cyfeirnod yr achos 201102666**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn gan swyddog yng Nghyngor Sir Fynwy yn datgan bod aelod o'r Cyngor wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi darparu gwybodaeth am fywyd preifat y swyddog i aelodau eraill ac i aelod o'r cyhoedd.

Daeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad nad oedd y Cynghorydd wedi gweithredu o fewn yr oddefeb a roddir iddo gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Yr oedd yr oddefeb honno yn cyfyngu ar ei allu i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch gweithrediad atyniad lleol lle yr oedd ei wraig yn gweithio, ac yr oedd ganddo fudd personol a rhagfarnol ynddynt o'r herwydd.

Roedd y dystiolaeth a ganfuwyd gan ymchwiliad yr Ombwdsmon yn awgrymu y gallai'r Cynghorydd fod wedi gweithredu'n groes i ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad. Penderfynodd yr Ombwdsmon i gyfeirio'r mater i Swyddog Monitro'r Cyngor, i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Daeth i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi gweithredu'n groes i baragraffau penodedig y Cod a phenderfynodd y dylid ei wahardd am bedwar mis.

Mae penderfyniad y Pwyllgor Safonau ar gael yma.

**Integredd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**
**Chwefror 2013 – Rhif cyfeirnod yr achos 201200387**

Roedd aelod o'r cyhoedd wedi cwyno bod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi anfon llythyr etholiad allan gan ddefnyddio papur pennawd y Cyngor cyn yr etholiad a gynhaliwyd ar 3 Mai 2012.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ei ymchwiliad yn dangos y gallai'r Cynghorydd fod wedi camddefnyddio adnoddau'r Cyngor i ddibenion gwleidyddol a thrwy hynny wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod. Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylai gyfeirio ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn i Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Canfu fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod a cheryddwyd ef am y ddau achos hyn a byddai'n rhaid iddo fynychu hyfforddiant, ar y Cod, o fewn tri mis.

Mae penderfyniad y Pwyllgor Safonau ar gael yma.

**Gwrthrychedd a phriodoldeb – Cyngor Tref Llandudno**
**Chwefror 2013 – Rhif cyfeirnod yr achos 201103150**

Roedd unigolyn wedi cwyno bod aelod o Gyngor Tref Llandudno wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau, pan geisiodd fynd i mewn i'w heiddo trwyddedig ar ôl oriau agor arferol gan ddweud ei bod yn Gynghorydd Tref. Ar ôl gwrthod ei chais, dywedodd yr achwynydd ei bod wedi troi'n ymosodol ac wedi gwneud bygythiadau ynglŷn â'u trwydded a'u busnes. Yn dilyn hyn, roedd yr aelod wedi gwneud honiadau ysgrifenedig di-sail ynglŷn ag ymddygiad yr achwynydd i gynghorwyr tref eraill ac uwch aelodau etholedig, a fu'n destun ymchwiliad dilynol gan swyddog trwyddedu'r Cyngor Sir.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad ei bod yn bosibl ystyried bod gweithredoedd y Cynghorydd, wrth geisio cael mynediad i'r eiddo trwyddedig ar ôl yr oriau agor arferol, a'r neges e-bost ddilynol a anfonwyd at gynghorwyr tref eraill ac aelodau etholedig, yn gwneud sylwadau di-sail am ymddygiad yr achwynydd, yn awgrymu ei bod wedi camddefnyddio'i sefyllfa fel cynghorydd a thrwy hynny wedi dwyn anfri ar y swydd. Cyfeiriodd y mater i Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w hystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Canfu bod gweithredoedd y Cynghorydd, wrth geisio defnyddio ei swydd er mwyn ceisio sicrhau mantais iddi ei hun, wedi dwyn anfri ar ei swydd. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd o'r farn bod y Cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â cheisiadau a wnaed gan swyddfa'r Ombwdsmon yn ystod yr ymchwiliad. Cafodd y Cynghorydd ei gwahardd am gyfnod o chwe mis.

Mae penderfyniad y Pwyllgor Safonau ar gael yma.

**Gwrthrychedd a phriodoldeb – Cyngor Sir Powys**
**Chwefror 2013 – Rhif cyfeirnod yr achos 201200003**

Honnwyd bod Cynghorydd wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Sir Powys a'i fod wedi datgelu gwybodaeth sensitif a roddwyd iddo yn gyfrinachol a'i fod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, ei bod yn wybodaeth gyfrinachol.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y Cynghorydd wedi derbyn gwybodaeth gyfrinachol, a'i fod wedi datgelu'r wybodaeth honno, ac wrth wneud hynny, y gallai fod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylid cyfeirio'i adroddiad ar ei ymchwiliad i Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

Canfu bod y Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth yr oedd yn gwybod ei bod yn gyfrinachol, ac felly roedd wedi torri'r Cod a thrwy hynny wedi dwyn anfri ar ei swydd fel aelod. Cafodd y Cynghorydd ei wahardd am gyfnod o un mis calendr.

Mae penderfyniad y Pwyllgor Safonau ar gael yma.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch – Cyngor Sir y Fflint**
**Gorffennaf 2010 – Rhif cyfeirnod yr achos 200802503**

Archwiliodd yr Ombwdsmon gŵyn yn erbyn aelod o Gyngor Sir y Fflint. Yr oedd y gŵyn yn honni fod y Cyngorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at swyddogion y Cyngor; drwy ddefnyddio ymddygiad o fwlio neu harasio; ceisio peryglu didueddrwydd swyddogion a, thrwy wneud hynny; ei fod wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn debygol o ddwyn anfri ar swydd aelod o'r Cyngor.

Canfu'r Panel Dyfarnu fod y Cyngor wedi torri Codau Ymddygiad y Cyngor a oedd mewn grym adeg y digwyddiadau y cwynwyd amdanynt. Penderfynodd y dylai'r Cyngor gael ei wahardd rhag bod yn aelod o awdurdod am gyfnod o ddwy flynedd a hanner.

Gellir gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma. Mae'r cyn Gynghorydd wedi cael hawl i apelio'r penderfyniad i'r Uchel Lys.

**Integredd – Cyngor Sir Ceredigion**
**Ionawr 2013 – Rhif cyfeirnod yr achos 201102175**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod cyn Gynghorydd wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Sir Ceredigion. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi hawlio gormod o dreuliau milltiroedd dros gyfnod o 11 mlynedd.

Yn ystod ei ymchwiliad, rhoddodd yr Ombwdsmon ystyriaeth i'r ffaith y canfu ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Cyngor, bod y Cynghorydd wedi hawlio gormod o dreuliau fel Aelod ac fel Cadeirydd y Cyngor. Fe ad-dalodd y Cynghorydd £5100.42 i'r Cyngor.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu torri'r Cod yn ymwneud â chamddefnyddio'i sefyllfa i gael mantais iddo'i hun, gan fethu â dilyn gofynion y Cyngor wrth hawlio treuliau, a thrwy hynny ddwyn anfri ar y swydd. Cyfeiriwyd ei adroddiad ar yr ymchwiliad i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru, i'w ddyfarnu gan dribiwnlys. Canfu'r tribiwnlys fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod, ac y dylid ei wahardd am gyfnod o dri mis, rhag bod, neu ddod, yn aelod o Gyngor Sir Ceredigion neu unrhyw awdurdod arall perthnasol.

Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru ar gael yma.

**Integredd – Cyngor Cymuned y Mwmbwls**
**Ionawr 2012 – Rhif cyfeirnod yr achos 201002266**

Honnodd Cynghorydd fod aelod arall o Gyngor Cymuned y Mwmbwls wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Honnwyd fod y Cynghorydd a gyhuddwyd wedi dwyn anfri ar swydd Cynghorydd a'r Cyngor, drwy wneud datganiadau camarweiniol am ei asedau i Dribiwnlys Cyflogaeth.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod tystiolaeth i awgrymu y gallai ymddygiad y Cynghorydd fod wedi torri'r Cod. Ei ganfyddiad oedd y dylid cyfeirio'r adroddiad ar yr ymchwiliad i Swyddog Monitro Dinas a Sir Abertawe, i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

Canfu bod ymddygiad y Cynghorydd, mewn cysylltiad â'r datganiadau camarweiniol a wnaeth am ei asedau, yn golygu torri'r Cod, am ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd a'r Cyngor. Penderfynodd y dylai'r Cynghorydd gael ei wahardd rhag bod yn aelod o'r Cyngor am gyfnod o 18 wythnos.

Apeliodd y Cynghorydd apêl wedi hyn i Banel Dyfarnu Cymru. Fe gymeradwyodd Panel Dyfarnu Cymru yn unfrydol y penderfyniad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Hefyd cymeradwyodd y penderfyniad i'w wahardd rhag bod yn aelod o'r Cyngor am gyfnod o 18 wythnos.

Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru ar gael yma.

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Lyfr Achosion y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

**Ffôn** **01656 644200**
**Ffacs** **01656 641199**
**e-bost** **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)**

**Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon**

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

# Coflyfr y Cod Ymddygiad

**Rhifyn 2 Mai 2014**

## Tu fewn


Rhagair yr Ombwdsmon 1

Cwflwyniad 3

**Crynodebau Achosion**

Dim tystiolaeth o dor-amod 4

Nid oes angen gweithredu 6

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau 8

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru 10

Mwy o Wybodaeth 11


Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

## Rhagair yr Ombwdsmon

Cyflwynwyd Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad gan fy rhagflaenydd, Peter Tyndall, fel mecanwaith ar gyfer hoelio sylw ar waith y swyddfa hon wrth ymchwilio i gwynion ynghylch toriadau honedig ar y Cod Ymddygiad sy’n berthnasol i bob cynghorydd ym mha swyddogaeth bynnag y byddant yn gwasanaethu ac ar ba bynnag Gyngor y maent yn eistedd. Mae Mr Tyndall bellach wedi symud i swydd newydd fel Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon, ac o ganlyniad, i mi fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro y daeth y ddyletswydd o ddarparu’r cyflwyniad ar gyfer yr ail rifyn hwn.

Mae’n braf bod nifer y cwynion a dderbyniwyd gennym ynghylch toriadau honedig ar y cod ymddygiad wedi gostwng. Mae’n rhy gynnar i ddweud a yw hon yn duedd hirdymor ac a fyddwn unwaith eto’n derbyn niferoedd uchel yn ystod blwyddyn etholiad, ond gallai hyn fod yn rhannol oherwydd prosesau datrys materion yn lleol sydd wedi bod ar waith ar draws Cymru ers tro byd bellach. . Ar gyfer y rhai yr ymchwilir iddynt gan y swyddfa hon, y mae pedwar canlyniad yn bosibl, fel y nodir yn fwy manwl yn y Cyflwyniad i’r Llyfr Achosion hwn; sef, dim tystiolaeth o dorri’r cod neu dim angen gweithredu a chyfeirio at bwyllgor safonau awdurdod neu Banel Dyfarnu Cymru. O ystyried maint enfawr y gwaith a wneir gan Aelodau Cynghorau, mae’n braf nodi mai cymharol fychan yw nifer yr aelodau y cwynir amdanynt, sy’n arwain at y casgliad y gwneir y rhan helaethaf o’r gwaith o ddigon heb i unrhyw faterion croes godi. Yn ddiamau mae hyn o fudd i etholwyr.

(Parheir trosodd)

Wrth adolygu'r cwynion a gododd yn y chwe mis diwethaf, mae'n nodedig fod tri prif faes yn achosi anghydfodau.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r drafferth y gall cynghorwyr ei chael o ran gwahaniaethu rhwng gweithgareddau a gyflawnir yn ei rôl swyddogol a phethau a wneir yn breifat. Gall fod yn anodd gwahaniaethu'r ddau. Yn fwy arwyddocaol, efallai mai dim ond y bersonoliaeth swyddogol y maent hwy yn ei gweld a'u bod bob amser yn disgwyl i'w cynghorwyr ymddwyn mewn modd cydnaws â'r rôl honno a pheidio â gweithredu mewn ffordd a allai ddwyn anfri ar eu swydd.

Mae'r ail thema'n ymwneud â'r berthynas rhwng cynghorwyr eu hunain a rhwng cynghorwyr a swyddogion. Mae i'w ddisgwyl y bydd cynghorwyr yn angerddol ynghylch gweithio er budd eu hetholwyr ond fe all fod gwahaniaeth barn ddigon teg rhwng cyd-gynghorwyr neu rhwng cynghorwyr a swyddogion ynghylch sut orau i gyflawni hyn. Yn naturiol, mae'n hollbwysig nad yw lobïo grymus yn troi'n fwlio neu harasio, gan y gallai'r naill neu'r llall olygu torri'r Cod.

Yn olaf, dylai cynghorwyr fod yn ymwybodol bob amser o'r bwlch rhwng eu gweithredoedd fel cynghorwyr yn cynrychioli'u hetholwyr ar un llaw, a'u gweithgareddau gwleidyddol ar y llaw arall. Gall y gwahaniaeth hwn fod yn allweddol bwysig o ran y defnydd o gyfleusterau'r cyngor a fydd yn gyfreithiol wrth weithredu fel cynghorydd ond yn annerbyniol pan ddefnyddir hwy i ddibenion gwleidyddol.



Yr Athro Margaret Griffiths

Ombwdsmon Dros Dro

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o bob adroddiad sydd wedi'u cyhoeddi gan y swyddfa hon a bydd canfyddiadau'r crynodebau hyn yn cynnwys un o'r pedwar dyfarniad uchod. Yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn gorchuddio Hydref 2013 i Mawrth 2014, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae grandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth a dor-amod

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201305131 – Mawrth 2014**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd ("yr achwynydd"), yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor ar 21 Tachwedd 2013, yn teimlo iddo gael ei fwlio gan Gynghorydd arall. Dywedodd yr achwynydd bod y Cynghorydd wedi codi dwrn ato a bygwth ei "sorto fe ma's". Dywedodd yr achwynydd ei fod yn ofni y câi ei daro.

Yng nghwrs yr ymchwiliad, derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyngor a chyfwelwyd tystion. Er derbyn tystiolaeth bod trafodaeth danllyd wedi bod rhwng yr achwynydd a'r Cynghorydd ar ddiwedd y cyfarfod, nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn bod yr achwynydd wedi cael ei fygwth gan y Cynghorydd.

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

**Cyngor Sir Caerdydd – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201204852 – Chwefror 2014**

Cwynodd aelod o Gyngor Sir Caerdydd ("yr achwynydd") ynglŷn ag ymddygiad cyd Gynghorydd iddo. Dywedodd yr achwynydd nad oedd y Cynghorydd wedi dangos digon o barch ac ystyriaeth ohono yn ystod toriad coffi yng nghyfarfod y Cyngor llawn yn Hydref 2012; drwy fethu gwneud hynny, roedd y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar rôl yr aelod a'r Awdurdod. Cwynodd yr achwynydd hefyd ynglŷn â'r iaith a ddefnyddiwyd gan y Cynghorydd i'w ddisgrifio mewn gohebiaeth ag aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng e-bost yn Chwefror 2013.

Yng nghwrs ymchwiliad yr Ombwdsmon, cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor ynghyd â nifer o aelodau etholedig a oedd yn y cyffiniau adeg y digwyddiad honedig.

Nid oedd y dystiolaeth a gafwyd ynglŷn â'r digwyddiad yn ystod y toriad coffi yn cefnogi'r honiad a wnaed. Ymhellach, roedd yr Ombwdsmon yn ymwybodol na enwyd yr achwynydd yn benodol yn yr e-byst a anfonwyd at aelodau'r cyhoedd gan y Cynghorydd. Gan nad oedd unrhyw gyfeiriad penodol at yr achwynydd, nid oedd yr Ombwdsmon yn gallu casglu, na phenderfynu, at bwy yr oedd yr e-byst yn cyfeirio. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad yn awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

**Cyngor Sir Powys – Atebolrwydd a bod yn agored**
**Cyfeirnod achos 201204510 – Tachwedd 2013**

Cwynodd Mr G bod aelod o Gyngor Sir Powys wedi adeiladu eiddo ar ei dir heb ganiatâd cynllunio a'i fod, pan dderbyniodd yr aelod dan sylw swydd ar bwyllgor cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi torri'r Cod Ymddygiad. Dywedodd Mr G bod hanes cynllunio'r safle hwn yn ddyrys, a bod y Cyngor wedi ceisio cyngor cyfreithiol.

Dywedodd y Cynghorydd iddo adeiladu tŷ yn 2007 ar sail caniatâd cynllunio a gymeradwywyd. Roedd wedi prynu ei eiddo yn 2000 ac roedd yn cynnwys copi o ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu unedau model a llety preifat a gyhoeddwyd yn 1994. Dywedodd y Cynghorydd, pryd bynnag yr oedd hynny'n bosib, y byddai ei wraig neu ei asiant yn cymryd yr awenau, fel na fyddai ei enw da ef yn cael ei beryglu, er na fyddai hynny'n dileu'r gofyniad iddo lynu wrth y Cod. Dywedodd bod ei eiddo y tu allan i ffiniau'r Parc Cenedlaethol ac nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi bod yn rhan o benderfyniadau cynllunio'n ymwneud â'i dir, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

## Nid oes angen gweithredu

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Cyfeirnod achos 201306694 – Mawrth 2014**

Cyfeiriodd aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei hun i'r Ombwdsmon er mwyn iddo ystyried achos posib o dorri'r Cod Ymddygiad. Dywedodd y Cynghorydd ei bod hi efallai wedi torri'r Cod drwy fethu datgan budd personol a rhagfarnus mewn taliad grant cynlluniau bach a wnaed ym mis Tachwedd 2013. Esboniodd y Cynghorydd iddi bwyso a mesur a oedd ganddi fuddiant personol wrth wneud cais am grant ar gyfer mudiad y mae'n aelod ohono, ond yn dilyn trafodaeth gyda swyddog o'r Cyngor, daeth i'r casgliad nad oedd ganddi fuddiant o'r fath.

Tynnwyd sylw at y mater gan y pwyllgor craffu perthnasol ac, ar ôl ystyried y mater ymhellach, teimlodd y Cynghorydd ei bod yn briodol iddi gyfeirio ei hun. Roedd y Cynghorydd yn derbyn cyfrifoldeb llawn dros y posibilrwydd ei bod hi wedi torri'r Cod, ac roedd hi'n ymddiheuro'n daer dros ei gweithredoedd.

Ystyriwyd amgylchiadau'r grant a phenderfynwyd, oherwydd presenoldeb rheolaidd y Cynghorydd mewn cyfarfodydd a'r ffaith ei bod yn aelod o'r mudiad, bod ganddi fuddiant personol ac y byddai'r buddiant hwn hefyd yn rhagfarnus. Roedd yn dilyn felly bod ei hymddygiad, wrth fethu datgan y buddiannau hyn, yn awgrymu ei bod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Fodd bynnag, wedi ystyried ymddygiad y Cynghorydd yn cyfeirio'r mater hwn, y ffaith ei bod yn derbyn cyfrifoldeb ac yn ymddiheuro, penderfynodd yr Ombwdsmon na ddylid cymryd unrhyw gamau ynglŷn â'r materion a ymchwiliwyd.

**Dinas a Sir Abertawe – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201203127 – Tachwedd 2013**

Gwnaed cwyn gan Mr X ynglŷn ag aelod o Ddinas a Sir Abertawe. Cwynodd Mr X bod y Cynghorydd wedi bwlio ac aflonyddu ar swyddogion tân, ymweld â gorsafoedd tân heb ganiatâd, mynnu cael gwybodaeth gyfrinachol gan swyddogion brigâd dân a gwthio ei hun i fusnes Undeb y Brigadau Tân.

Ar ôl cynnal ymchwiliad, canfu'r Ombwdsmon bod y cwynion a wnaed yn rhai difrifol a lleisiodd ei amheuon ynglŷn ag ymddygiad y Cynghorydd tuag at swyddogion o fewn y gwasanaeth tân.

Canfu'r Ombwdsmon, er ei bod hi'n briodol i Mr X wneud yr atgyfeiriad am ei fod yn codi pryderon difrifol am yr hyn y mae'r Ombwdsmon yn ei ddisgrifio yn ymddygiad rhwygol, ystrywgar ac amharchus, na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach gyda'r mater hwn. Penderfynodd yr Ombwdsmon, er nad oedd y dystiolaeth yn rhyddhau'r Cynghorydd o fai, ei bod yn dangos, yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau y cwynwyd yn eu cylch, nad oedd yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd, ac nad oedd y dystiolaeth oedd ar gael yn ddigon diymwad i ddangos ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd na'i awdurdod.

Yng nghyswllt y materion eraill, roedd y dystiolaeth yn gwrth-ddweud ei hun, ac nid oedd unrhyw gadarnhad annibynnol.  Yn olaf, ystyriwyd hefyd hawliau dynol Erthygl 10 y Cynghorydd, oherwydd bod ganddo hawl i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r awdurdod tân y daethpwyd at ei sylw yn rhinwedd ei swydd fel Aelod. Penderfynnodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cyrnnyd unrhyw gamau pellach.

## Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau

**Cyngor Sir Benfro – Dyletswydd i gynnal y gyfraith**
**Cyfeirnod achos 201203889 – Tachwedd 2013**

Dywedodd unigolyn ei bod wedi derbyn DVD dienw a oedd fel pe bai'n dangos bod Cynghorydd wedi defnyddio system gyfrifiadurol y Cyngor i greu deunydd etholiadol ar gyfer cydweithwyr. Ar ôl archwilio'r DVD, gwelwyd bod y Cynghorydd naill ai wedi bod yn gyfrifol am greu, neu mai ef oedd y defnyddiwr a oedd wedi 'arbed', y 21 dogfen diwethaf o naws gwleidyddol ar system gyfrifiadurol y Cyngor. Roedd hi'n ymddangos bod hyn yn torri amod paragraff o'r Cod Ymddygiad sy'n datgan na ddylid defnyddio adnoddau'r awdurdod at ddibenion gwleidyddol.

Cyfwelwyd y Cynghorydd, a chyfaddefodd iddo helpu cydweithwyr i baratoi eu deunydd etholiadol, ond roedd yn bendant na ddefnyddiwyd offer y Cyngor i argraffu'r eitemau hyn. Dywedodd y Cynghorydd bod rhai ffeiliau wedi'u creu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Ysgrifennydd, ac roedd wedyn yn credu y gallai ddefnyddio cyfrifiadur y Cyngor weithiau at ddibenion eraill. Derbyniodd nad oedd hyn yn wir. Dywedodd y Cynghorydd bod y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd wedi cael ei dwyn oddi ar ei gyfrifiadur.

Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylid cyfeirio'r mater i'r Swyddog Monitro, er mwyn i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ystyried y mater. Daeth i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a phennodd y dylai gael ei atal am bythefnos. Mae penderfyniad y Pwyllgor Safonau i'w gael yma.

**Cyngor Gwynedd – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201100986 – Ebrill 2012**

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd, ar 6 Gorffennaf 2011, wedi postio yn ei flog bod yr achwynydd wedi llawenhau yn ymddiswyddiad trydydd parti fel Cynghorydd. Roedd y Cynghorydd hefyd wedi dweud bod yr achwynydd yn bwriadu ymddeol fel pennaeth ysgol ac y byddai'n sefyll i'w ethol yn Gynghorydd mewn ward benodol.

Dywedodd yr achwynydd bod yr honiadau ei fod yn bwriadu ymddeol a sefyll etholiad yn gelwydd. Dywedodd yr achwynydd nad oedd ganddo unrhyw fwriad i ymddeol, a'i fod wedi cadeirio'r cyfarfod lle enwebwyd y Cynghorydd a gwynwyd amdano i gynrychioli parti yn etholiadau 2012.

Honnodd yr achwynydd bod y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd. Roedd yr achwynydd yn credu bod y Cynghorydd wedi gosod yr achwynydd dan anfantais yn ei swydd broffesiynol drwy ledaenu sïon ynglŷn â'i ymddeoliad arfaethedig honedig, a gallai hyn greu anawsterau pe bai'n ceisio cyflogaeth bellach. Dywedodd yr achwynydd y gallai'r blog fod wedi achosi problemau iddo gyda i gorff llywodraethu, a dryswch ymhlith staff yr ysgol a rhieni disgyblion.

Canfu'r Ombwdsmon bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a chyfeiriodd ei adroddiad at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ei ystyried. Daeth i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a phennodd y dylai gael ei atal am dri mis.

Wedi hynny, cyflwynodd y Cynghorydd apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau ger bron Panel Dyfarnu Cymru. Cadarnhaodd y tribiwnlys benderfyniad y Pwyllgor Safonau. Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru i'w gael yma.

**Cyngor Cymuned Pentyrch – Anhunanoldeb a stiwardiaeth**
**Cyfeirnod achos 201002530 – Ionawr 2012**

Gwnaeth cadeirydd Cyngor Cymuned Pentyrch gŵyn yn erbyn Cynghorydd ynglŷn â phryderon bod ei ffordd o gynnal busnes y cyngor yn amhriodol ac yn achos o fwlio ac aflonyddu ar y Clerc a'r Cadeirydd ei hun. Dywedwyd bod y Cynghorydd yn gofyn am bethau afresymol ac yn aml yn gofyn am gymryd camau a oedd yn gwrthdaro â rheolau sefydlog y Cyngor Cymuned. Roedd yr ymddygiad hwn wedi bod yn digwydd ers oddeutu tair blynedd. Honnwyd hefyd iddo fethu datgan buddiant personol mewn materion a godai ym musnes y Cyngor.

Cyflwynodd y Cyngor Cymuned gofnod ysgrifenedig helaeth o'r trafodaethau rhwng y Cyngor a'r Cynghorydd, ac fe gafodd gyfle i ymateb.

Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri sawl gwaith, a chyfeiriodd ei adroddiad at y Pwyllgor Safonau priodol i'w ystyried. Canfu Pwyllgor Safonau Cyngor Dinas Caerdydd bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri yn y ffyrdd a amlinellwyd uchod. Fodd bynnag, erbyn dyddiad y gwrandawiad, nid oedd y Cynghorydd yn aelod mwyach. O'r herwydd, cyhoeddwyd cerydd, a dywedodd y Pwyllgor Safonau y byddai'r aelod, pe bai'n dal i wasanaethu, wedi cael ei atal am chwe mis, gan ei fod yn ystyried yr achosion o dorri'r Cod Ymddygiad yn rhai difrifol iawn.

Cyflwynodd y Cynghorydd apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau ger bron Panel Dyfarnu Cymru. Cadarnhaodd y tribiwnlys benderfyniad y Pwyllgor Safonau, ar ôl ystyried goblygiadau Erthygl 10 y Ddeddf Hawliau Dynol. Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru i'w gael yma.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

**Cyngor Tref Llandrindod – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch**
**Cyfeirnod achos 201202775 – Ebrill 2013**

Cwynodd aelod o'r Cyngor ("yr achwynydd") bod cyn Gynghorydd ("yr aelod cyhuddedig") wedi ymddwyn yn ei erbyn mewn ffordd a oedd yn gyfystyr ag aflonyddu. Aeth yr aelod cyhuddedig at y Cyngor Sir i drafod llun noeth yr oedd yr achwynydd wedi'i dynnu ohono'i hun a'i anfon at gyd-ddisgybl tra'r oedd y ddau dal yn yr ysgol. Roedd hyn wedi digwydd dair blynedd cyn i'r achwynydd gael ei ethol ac ni chymerwyd unrhyw gamau troseddol. Ymchwiliodd y Cyngor i'r mater, a hysbysu'r aelod cyhuddedig nad oedd unrhyw bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Cynhaliodd yr aelod cyhuddedig arolwg o'r cyhoedd a oedd yn cynnwys disgrifiad o'r digwyddiadau a oedd fel pe baent yn cyhuddo'r achwynydd ar gam o gyflawni trosedd rhyw yn erbyn rhywun dan oed. Achosodd hyn niwed arwyddocaol i enw da'r achwynydd, a'i orfodi i drafod mater preifat hanesyddol.

Ymddengys ei bod hi'n bosib y gallai'r aelod cyhuddedig fod wedi torri nifer o baragraffau yn y Cod Ymddygiad wrth ymlid yr achwynydd ac wrth gamarwain aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r digwyddiad. Rhoddwyd sylw helaeth i'r mater hwn, ynghyd â'r Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu dilynol a gyflwynwyd i'r aelod cyhuddedig gan yr heddlu dan y Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, yn y wasg leol. Ymddengys bod hyn yn achos arall o dorri'r Cod Ymddygiad.

Dywedodd yr aelod cyhuddedig iddo gynnal ei arolwg oherwydd ei fod yn teimlo bod yr achwynydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, gan na wnaeth ef godi'r toramod honedig hwn o'r Cod Ymddygiad gyda'r swyddfa hon, ymddengys bod hyn hefyd yn torri'r Cod Ymddygiad.

Ymddiswyddodd yr aelod cyhuddedig o'i swydd a gwrthododd gyfrannu at y broses ymchwilio. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y gallai hyn fod yn ymdrech i lesteirio'r broses ymchwilio, a gallai hynny, ynddo'i hun, hefyd fod yn achos o dorri'r Cod Ymddygiad.

Gan fod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu ei bod hi'n bosib bod yr aelod cyhuddedig wedi torri sawl paragraff o'r Cod Ymddygiad, cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru, er mwyn cael dyfarniad gan dribiwnlys.

Penderfynodd y tribiwnlys bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ac y dylid ei wahardd am gyfnod o dair blynedd. Mae penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru i'w weld yma.

# Mwy o Wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk neu i'r cyfeiriad canlynol:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

| | |
|---|---|
| **Ffôn** | **01656 644200** |
| **Ffacs** | **01656 641199** |
| **e-bost** | **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)** |

**Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon**

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **30 Mehefin 2014** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

**2. Cwynion**

**2.1 Achos 201300346**

**Dyddiad derbyn:** 23/04/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

**2.2 Achos 201301307**

**Dyddiad derbyn:** 06/06/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd

**Penderfyniad**

Wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

**2.3 Achos 4414/201301916**

**Dyddiad derbyn:** (wedi codi yn ystod ymchwiliad i 2.1 uchod)

**Cwyn**

Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio ar sail materion a ddaeth ar eu traws wrth ymchwilio i gŵyn arall yn erbyn y cynghorydd (para 2.1 uchod):

- Dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd neu ar yr awdurdod
- Gwrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd a cham ddefnydd o'i rôl fel cynghorydd
- Mynychu cyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro lle gallai bod sefyllfa o wrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd
- Ymddygiad tuag at aelod o'r cyhoedd yn groes i'r Cod Ymddygiad

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau.

**2.4 Achos 201301629**

**Dyddiad derbyn:** 17/06/13

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant mewn eitem oedd gerbron cyfarfod o'r cyngor.

**Penderfyniad**

Wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

**2.5 Achos 6141/201400682**

**Dyddiad derbyn: 29/04/14**

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi bod yn gwneud sylwadau negatif yn barhaus am berfformiad clerc y cyngor.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Fel aelod roedd ganddo'r hawl i gwyno od oedd o'r farn fod perfformiad cyflogai yn is na'r lefel ddisgwyliedig.

**2.6 Achos 6141/201400694**

**Dyddiad derbyn: 29/04/14**

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ystyried os yw am ymchwilio.

**2.7 Achos 6180/201400801**

**Dyddiad derbyn: 15/05/14**

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan aelod o’r cyhoedd, bod cynghorydd sir yn gwadu ei bod wedi defnyddio geiriau penodol mewn sgwrs.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ystyried os yw am ymchwilio.

**2.8 Achos 6397/201401427**

**Dyddiad derbyn: 02/06/14**

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn, gan aelod o’r cyhoedd, bod cynghorydd tref wedi ymddwyn mewn ffordd anghwrtais.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ystyried os yw am ymchwilio.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r wybodaeth.

**COFNODION CYFARFOD O**
**FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**
**A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR, YR WYDDGRUG**
**AR DDYDD MAWRTH, 29 EBRILL 2014**

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | Michael Wilson - Cadeirydd<br>Robyn Jones - Dirprwy Swyddog Monitro<br>Awena Parry - Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| Conwy | Howie Roberts - Cadeirydd ***(Cadeirydd)***<br>Samuel Adams - Is-Gadeirydd<br>Ceri Williams - Dirprwy Swyddog Monitro |
| Sir Ddinbych | Ian Trigger - Cadeirydd<br>Parch. Steven Wayne Roberts - Is-Gadeirydd |
| Sir y Fflint | Patricia Jones - Cadeirydd<br>Edward Michael Hughes - Is-Gadeirydd<br>Gareth Owens - Swyddog Monitro |
| Gwynedd | Gwilym Ellis Evans - Cadeirydd |
| Wrecsam | Ceri Nash - Is-Gadeirydd |
| Parc Cenedlaethol Eryri | David Vaughan - Cadeirydd |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran Islwyn Jones (Ynys Môn), Delyth Jones (Conwy) a Sam Soysa (Gwynedd).

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2013 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2013 i'w derbyn a'u cadarnhau fel rhai cywir.**

## 3. SESIWN HYFFORDDI

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Gareth Owens, Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint ar hyfforddiant a datblygiad moesegol nid yn unig i helpu cynghorwyr i ddeall eu rhwymedigaethau dan y Côd Ymarfer ond hefyd i gynorthwyo aelodau annibynnol yn eu gwaith ar Bwyllgorau Safonau. Eglurodd y dull o weithredu a ddilynir yn Sir y Fflint mewn perthynas â:

- Hyfforddi aelodau - nid oedd hyn wedi'i wneud yn orfodol oherwydd peirianwaith gorfodi cyfyngedig, ar wahân i'r rheini ar Bwyllgorau Cynllunio ac Archwilio yr oedd Arweinwyr Grwpiau yn gyfrifol am eu gorfodi. Roedd presenoldeb gwael mewn sesiynau hyfforddi Aelodau wedi ysgogi newid yn y drefn i sicrhau o leiaf chwech o fynychwr cyn y gallai sesiwn hyfforddi fynd yn ei flaen. Roedd wedi achosi i'r Cyngor ddilyn dull gwahanol o weithredu hefyd. Roedd hyfforddiant yn cael ei roi fesul dognau bach ar bynciau penodol mewn cyfarfodydd yr oedd cynghorwyr yn eu mynychu'n barod. Rhoddodd enghreifftiau o ddarparu hyfforddiant ar ddatgan buddiannau mewn cyfarfodydd grŵp ac ar gofnodi datganiadau o fudd yn syth cyn cyfarfodydd pwyllgorau.

- Pwyllgor Safonau - yn ogystal â hyfforddiant yn seiliedig ar dasgau (ee caniatáu goddefebau a chynnal gwrandawiad), roedd datblygiad ehangach ar rôl a phrosesau'r Cyngor wedi'i roi. Roedd sesiwn hyfforddi hanner awr anffurfiol yn cael ei gynnal cyn pob cyfarfod Pwyllgor Safonau, gyda chais am awgrymiadau ynghylch pynciau yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant a thrafodaeth yn cael ei wneud dan eitem safonol y Flaenraglen Waith.

- Cynghorau Tref a Chymuned – roedd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal mewn Cynghorau Tref a Chymuned bob hyn a hyn gydag eraill yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol a chyflwyno eitemau agenda. Yn y cyfarfodydd hyn, roedd y sesiwn hyfforddi hanner awr yn cael ei addasu'n gyfatebol. Yn ogystal, roedd cyfarfodydd o'r Fforwm Sirol yn rhoi cyfle i faterion gael eu codi rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Yn dilyn y cyflwyniad, trafododd aelodau'r Fforwm y nifer amrywiol o Gynghorau Tref a Chymuned yn eu hardaloedd a'r anawsterau yr oedd rhai wedi'u cael wrth ddarparu hyfforddiant i Glercod. Nodwyd y gellid cael hyd i gyfarwyddyd defnyddiol mewn pecyn cymorth llywodraethu ar gyfer cynghorau plwyf/tref yn Lloegr a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr, a oedd wedi'i ddarparu ar gyfer Swyddogion Monitro o'r blaen.

Codwyd sylwadau ar y gwahanol ddulliau gweithredu a ddilynir gan Gynghorau i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal digwyddiadau 'sioe deithiol' ar draws y ardal ac annog Aelodau Cyngor i ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned ac adrodd yn ôl ar unrhyw faterion. Roedd cynnydd posibl mewn materion o'r fath yn debygol oherwydd yr angen i Gynghorau Tref a Chymuned ddatblygu eu gwefannau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

## 4. <u>SESIWN AGORED AR GYFER EITEMAU O DDIDDORDEB CYFREDOL</u>

(i) <u>Mater Uchel Lys</u>

Yng Nghyngor Sir y Fflint, roeddid yn aros am benderfyniad gan yr Uchel Lys mewn ymateb i her a wnaed gan gynghorydd a oedd wedi'i wahardd. O

ystyried natur yr her, teimlid y byddai'r canlyniad o arwyddocâd i bob Pwyllgor Safonau. Roedd yr achos wedi'i gynnwys yng Nghoflyfr Côd Ymddygiad yr Ombwdsman.

(ii) Arfarniadau

Roedd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Gwynedd wedi gwneud hunanarfarniad yn ei gyfarfod diwethaf. Roedd ymarferiad tebyg yn cael ei ddatblygu gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn i glustnodi unrhyw welliannau ac i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, fodd bynnag byddai hyn yn golygu bod yr aelodau'n cael eu harfarnu'n unigol gan y Cadeirydd a oedd yn ei dro'n cael ei arfarnu gan y Swyddog Monitro. Cyfeiriwyd at set o safonau yn Lloegr i asesu a oedd arferion moesegol yn eu lle o fewn Cynghorau. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r pwnc yma fod yn eitem agenda yn y dyfodol.

(iii) Ffurflenni caniatáu goddefeb

Adroddwyd bod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Gwynedd wedi bod â rhan mewn llunio polisi drafft a oedd wedi'i gymeradwyo ar ôl hynny a'i fod hefyd yn gwneud arolwg o ffurflenni caniatáu goddefeb.

## 5. CYMERADWYO LLYTHYRAU GAN GYNGOR SIR YNYS MÔN MEWN PERTHYNAS Â MATERION SAFONAU

Mewn ymateb i drafodaethau blaenorol, cyflwynodd Ms Awena Parry, Cyfreithiwr i Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn y llythyrau a oedd wedi'u drafftio ar gyfer Un Llais Cymru ac Ombwdsman Cymru, i'w cymeradwyo gan y Fforwm.

(i) Un Llais Cymru

Yn dilyn pryderon ynghylch Cynghorau Tref a Chymuned yn cydymffurfio â gofynion cyhoeddi statudol, roedd y llythyr yn awgrymu ffyrdd y gallai help gael ei gynnig gan Un Llais Cymru. Yn ystod y drafodaeth, soniodd rhai o aelodau'r Fforwm am eu syndod fod llawer o Gynghorau Tref a Chymuned wedi gwrthod y cynnig o gyllid i helpu gyda hyn. Roedd yr ail lythyr yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyhoeddi pecyn cymorth llywodraethu, tebyg i'r un y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y cyfarfod, i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

(ii) Ombwdsman Cymru

Roedd y llythyr yn gofyn bod Ombwdsman Cymru yn ystyried (a) y posibiliadau o ddatblygu cyfarwyddyd sancsiynau i'w ddefnyddio'n benodol gan Bwyllgorau Safonau a (b) cyhoeddi crynodebau achos ar wefan yr Ombwdsman, unwaith yr oeddynt wedi dod i gasgliad, yn ogystal â pharhau Coflyfr Côd Ymddygiad Yr Ombwdsman, a oedd wedi bod yn ddefnyddiol.

Nid oedd yn hysbys eto pryd fyddai Ombwdsman newydd Cymru, Nicholas Bennett, yn cychwyn ar ei swydd.

**PENDERFYNWYD: Bod y tri llythyr i'w hanfon gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran y Fforwm, heb unrhyw newidiadau.**

## 6. UNRHYW FATER ARALL

(i) Cadeirio cyfarfodydd

Er bod y Cadeirydd yn fodlon dal ati yn y swydd yma, awgrymodd efallai y dymuna Cadeiryddion pob Pwyllgor Safonau lywyddu yn y cyfarfodydd a gynhelir yn eu swyddfeydd Cyngor hwy. Teimlai'r Fforwm y gallai hyn arwain at anghysondeb ac y byddai'n cymhlethu'r trefniadau.

**PENDERFYNWYD: Y byddai Cadeirydd (neu Is-Gadeirydd) y Fforwm yn llywyddu mewn cyfarfodydd ble bynnag oeddynt yn cael eu cynnal.**

(ii) Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan

Eglurwyd y byddai'r Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan nesaf yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf yn Ne Cymru.

(iii) Ombwdsman

Yn y cyfarfod blaenorol, penderfynwyd y dylai pryderon a godwyd gan Gyngor Sir Gwynedd ynghylch achos a oedd heb ei ddatrys gael eu codi gydag Ombwdsman Cymru, a oedd newydd ei benodi. Cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon ar ran y Fforwm i drosglwyddo'r pryderon hynny gyda'r disgwyliad y dylid rhoi ymateb iddo mewn amser rhesymol. Teimlid y dylid caniatáu amser i'r Ombwdsman newydd gael ei draed dano yn ei swydd cyn ei wahodd i gyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD: Bod llythyr i'w anfon ar ran y Fforwm gan Gyngor Sir Gwynedd at Ombwdsman Cymru i drosglwyddo'r pryderon a gofyn am ymateb o fewn amser rhesymol.**

(iv) Hyfforddiant

Gwnaed awgrym gan Gyngor Sir Ynys Môn i'r Fforwm dderbyn hyfforddiant gan Peter Keith Lucas, a oedd wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i nifer o Gynghorau. Byddai'r gost gyfan o £3K a TAW ar ei ben am ddiwrnod llawn (10am-4pm) yn dod yn £500 y Cyngor. Siaradodd y rheini a oedd wedi bod yn gyfrannog o hyfforddiant gan y darparwr hwn o blaid yr awgrym ac roeddynt yn teimlo y byddai cynnwys yr hyfforddiant yn fuddiol i'r Fforwm.

Cytunodd Mr Owens i e-bostio'r Swyddogion Monitro nad oeddynt yn bresennol i gyfleu'r gefnogaeth i'r hyfforddiant yma. Unwaith yr oedd sêl bendith wedi'i rhoi gan bob Cyngor, byddai trefniadau'n cael eu gwneud i fwrw ymlaen.

**PENDERFYNWYD: Bod Mr Owens yn cysylltu â Swyddogion Monitro ar y Fforwm i ofyn am gytundeb i'r hyfforddiant gan Peter Keith Lucas.**

## 7. ADBORTH

Eglurwyd bod yr eitem agenda safonol yma'n rhoi cyfle i wneud hunanddadansoddiad o gyfarfodydd y Fforwm ac i glustnodi unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Codwyd sylwadau ar yr angen i gadw'r cyfarfodydd yn anffurfiol tra oedd rhai'n teimlo y dylid fod wedi trefnu bod y cofnodion ar gael yn gynt a'u bod ond wedi'u darparu yn Saesneg.

**PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfodydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru i'w darparu'n ddwyieithog a'u hanfon ymlaen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w dosbarthu'n ddi-oed i'r Fforwm.**

## 8. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Yn unol â'r drafodaeth gynharach, cytunwyd y byddai Ms Parry yn cysylltu â Peter Keith Lucas i fynd ar drywydd dyddiadau hyfforddi at ddiwedd Mehefin/ dechrau Gorffennaf 2014 yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Byddai dyddiad addas ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei drefnu gan Sian Harland at fis Medi 2014 yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD: Bod dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm i'w drefnu gan Sian Harland at fis Medi 2014 yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Bod Ms Parry yn gofyn am ddyddiadau addas at ddiwedd Mehefin/ dechrau Gorffennaf gan Peter Keith Lucas ar gyfer y sesiwn hyfforddi yng Nghyngor Sir Ynys Môn.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm)